ssia

Asiantaeth Gwella'r Gwasanaethau Cymdeithasol

# Pecyn Cymorth Asesiad Poblogaeth

Croeso i becyn cymorth adnodd rhyngweithiol Asesiad Poblogaeth SSIA. I'w ddefnyddio, gallwch hofran dros yr adrannau ar y chwith a'r dde neu ddefnyddio'r botwm sgrolio ar eich llygoden i droi'r tudalennau. Os hoffech ddychwelyd i'r brif ddewislen ar unrhyw bryd, cliciwch ar "Cynnwys" yn y gornel dde uchaf.

Mae'r adnodd wedi'i rannu'n 4 adran allweddol y gellir eu cyrraedd o bob tudalen.

Os hoffech ei weld ar sgrin lawn, gwasgwch clt + L.

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

WLGA • CLILC

Llywodraeth Cymru Welsh Government

## CYDNABYDDIAETH

Ysgrifennwyd y pecyn cymorth hwn gan Tony Garthwaite a Rebecca Cicero ac fe'i comisiynwyd gan Lywodraeth Cymru. Fe'i cynhyrchwyd ar y cyd ag Iechyd Cyhoeddus Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Asiantaeth Gwella'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

Diolchir i bawb mewn awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol ac yn y trydydd sector am eu cyfraniadau a'u mewnbwn. Diolchir yn arbennig i Grŵp Craidd Asesiad Poblogaeth Cwm Taf, yr oedd eu gwaith cynnar wedi darparu cyfleoedd dysgu rhagorol i ddatblygu'r pecyn cymorth.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

GIG CYMRU NHS WALES
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

WLGA • CLILC

ssia
Improving Social Care in Wales
Gwella Gofal Cymdeithasol yng Nghymru

## CYN I CHI DDECHRAU

Mae'r pecyn cymorth hwn wedi'i gynllunio i'ch cynorthwyo i gynnal asesiad poblogaeth da a llunio adroddiad ar asesiad poblogaeth. Mae'n:

- Rhoi gwybod i chi BETH y mae angen i chi ei wneud i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth;
- Eich cynghori ar fuddion posibl asesiad poblogaeth fel bod gennych feincnod i brofi ansawdd eich asesiad;
- Cynnig offeryn cynllunio i chi fel y gallwch baratoi ar gyfer y dasg a threfnu eich hunain yn unol â hynny;
- Rhannu'r tasgau'n ddarnau unigol er mwyn helpu i wneud y broses yn haws ei thrin;
- Rhoi cyngor i chi ar SUT i fynd i'r afael â'r darnau cydrannol hyn a chyflawni eich cyfrifoldebau.

D.S. Defnyddir y term "Chi" drwy gydol y pecyn cymorth hwn ac mae'n cyfeirio at bawb sy'n gyfrifol am gynnal yr asesiad a pharatoi'r adroddiad, ond, oherwydd bod llawer o'r ddeddfwriaeth yn cyfeirio at gyfrifoldebau awdurdodau lleol, fe welwch ymadroddion fel "mae'n rhaid i chi, gyda'ch partneriaid BILl….". Fodd bynnag, dylech dybio disgwyliad bod rhaid cael cydgyfrifoldeb ymhlith asiantaethau partner ar gyfer y gwaith hwn. Mae angen i'r cydgyfrifoldeb hwn gael ei adlewyrchu ar draws yr awdurdod lleol a rhwng awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol.

**PARTNERIAETH**

Nid yw'r pecyn cymorth yn darparu templed rhagnodol ar sut i gynnal eich asesiad neu baratoi eich adroddiad, ac nid yw ychwaith wedi'i fwriadu i gymryd lle darllen a deall y gofynion arnoch a geir yn y Ddeddf a'i rheoliadau a'i Chod Ymarfer. Chi sy'n atebol ac yn gyfrifol am wneud penderfyniadau o hyd.

Yn lle hynny, mae'r pecyn cymorth yn cynnwys gwybodaeth a chyngor i arwain eich gwaith ac mae'n tynnu eich sylw at nifer o gyfeirbwyntiau ac adnoddau y gallwch eu defnyddio i ddatblygu eich ymagwedd a'ch ffordd o feddwl ymehllach ar faterion penodol.

Mae'r pecyn cymorth wedi'i gynllunio i fod yn rhwydd ei ddefnyddio gan bobl ar bob lefel ac yn fuddiol i bob asiantaeth. Mae cwblhau asesiad poblogaeth yn dasg heriol, ac er y dylai'r pecyn cymorth hwyluso hynny, mae'r her sy'n eich wynebu yn un sylweddol o hyd. Dylai'r broses ysgogi meddwl, creadigrwydd ac arloesedd ac mae'r pecyn cymorth yn annog ymagwedd at eich asesiad yn seiliedig ar rai egwyddorion allweddol hanfodol:

- Bydd ystyried yr asesiad yn yr un modd ag y byddech yn ystyried prosiect ymchwil mawr yn eich helpu i ddeall a threfnu'r gwaith sydd ei angen;
- Mae'n hanfodol cynllunio ar gyfer yr asesiad yn gynnar, a chyn dechrau'r gwaith yn ddelfrydol;
- Mae'n hanfodol sefydlu trefniadau llywodraethu a rheoli prosiect o'r cychwyn cyntaf hefyd;
- Mae'n rhaid i'r dasg gael ei chyflawni ar y cyd gyda chydatebolrwydd.


## RHAI HANFODION YNGLŶN Â'CH ADRODDIAD ASESIAD POBLOGAETH

- **<u>Nid y cynllun terfynol yw'r adroddiad terfynol</u>**. Bydd yn amlygu eich prif fwriadau ar gyfer cynlluniau manwl yn y dyfodol y bydd angen i chi eu paratoi o dan adran 14a y Ddeddf.

### CYNLLUNIAU AR GYFER Y DYFODOL

- Bydd yn rhoi gwybodaeth i chi am anghenion unigol ac ystod a lefel y gwasanaethau rydych chi'n eu darparu ar hyn o bryd. Bydd angen i chi ystyried sut y byddwch yn blaenoriaethu anghenion heb eu bodloni i lywio ymateb manylach yn eich cynlluniau terfynol.
- Ni ddisgwylir i chi ddyblygu unrhyw waith diweddar rydych eisoes wedi'i wneud i amlygu neu asesu anghenion lleol. Gall hwn gael ei gynnwys yn rhan o'ch asesiad.
- Bydd yr adroddiad terfynol a'r cynlluniau dilynol ar sail ranbarthol ac ar y cyd. Er y bydd y rhain yn adrodd ar anghenion lleol, bydd angen i chi ystyried sut y byddwch yn ymateb ar y cyd (BILl ac ALl) ac yn rhanbarthol (gan ddilyn ôl troed y BILl) o ran cynllunio.
- **Nid yw'r pecyn cymorth hwn yn cymryd lle** y Ddeddf, y Cod na'r Rheoliadau. Fe'i cynlluniwyd i'ch cynorthwyo i fodloni'r gofynion hynny.
- Mae ystod eang o adnoddau a gwybodaeth yn ymwneud â'r Ddeddf ar gael yn http://www.cgcymru.org.uk/getting-in-on-the-act-hub/

## LLUNIO ADRODDIAD ASESIAD POBLOGAETH: GWEITHGAREDDAU ALLWEDDOL




## DIBEN YR ASESIAD POBLOGAETH: BETH MAE ANGEN I'R ADRODDIAD EI DDANGOS?



# Prif Gynnwys

| BETH | SUT | CYMORTH |
|---|---|---|
| • Sut i ddefnyddio'r Canllaw hwn<br>• Yr hyn y mae angen i chi ei wneud | • Rheoli Prosiect<br>• Llywodraethu<br>• Partneriaethau<br>• Cynllunio | • Casglu a Dadansoddi Tystiolaeth<br>• Ystyriaethau Strategol<br>• Adroddiadau<br>• Themâu Craidd |

# Y Canllaw Beth

SUT I DDEFNYDDIO'R CANLLAW HWN

YR HYN Y MAE ANGEN I CHI EI WNEUD

Deddfwriaeth

Buddion

Dadansoddi

Gofynion yr Adroddiad

## SUT I DDEFNYDDIO'R PECYN CYMORTH

Bydd y pecyn cymorth yn eich helpu i weithio trwy'r gwahanol gamau gweithgarwch sy'n angenrheidiol i gynhyrchu a chyhoeddi eich adroddiad asesiad poblogaeth. Mae'r pecyn cymorth yn rhyngweithiol ac yn eich galluogi i symud rhwng adrannau. Fodd bynnag, fe'ch cynghorir yn gryf i ymgyfarwyddo â'r hyn sy'n ofynnol gennych (**y canllaw 'Beth'**) a'r canllaw cynllunio (**y canllaw 'Sut'**) cyn symud ymlaen i ystyried y darnau cydrannol (**y canllaw 'Cymorth'**).

**Sut i lywio**

Ar frig pob tudalen, ceir pedwar tab a fydd yn mynd â chi'n ôl i brif adrannau'r adroddiad. Ceir hefyd dudalennau is-bennawd o dan bob prif adran i'ch helpu i lywio trwy'r pecyn cymorth.

Mae'r botymau saeth ar ochr y tudalennau'n caniatáu i chi glicio'n ôl ac ymlaen rhwng tudalennau. Gallwch hefyd neidio i unrhyw dudalen gan ddefnyddio'r bar llithro ar ochr dde'r dudalen, fel y byddech mewn unrhyw ddogfen PDF arall.

Gallwch hefyd symud yn ôl ac ymlaen rhwng tudalennau gan ddefnyddio'r botymau chwith a de ar eich bysellfwrdd.

Ceir rhestrau gwirio rhyngweithiol drwy gydol y ddogfen. Gallwch glicio ar y blychau ticio i gadw golwg ar adrannau pan fyddwch wedi eu cwblhau. Os oes gennych chi fersiwn hŷn o PDF, efallai na fyddwch yn gallu defnyddio'r blychau ticio hyn. Rydym ni wedi cynhyrchu dogfen Word ar wahân sy'n cynnwys yr holl restrau gwirio er mwyn i chi eu hargraffu a'u defnyddio os yw'n well gennych wneud hyn neu os nad yw'ch fersiwn PDF yn caniatáu i chi ddefnyddio'r blychau ticio rhyngweithiol.

## DEDDFWRIAETH — YR HYN Y MAE'N RHAID I CHI EI WNEUD

**Yn ogystal â disgrifio gofynion y ddeddfwriaeth, mae'r rhan hon o'r pecyn cymorth hefyd yn gweithredu fel rhestr wirio y gallwch ei defnyddio wrth baratoi eich adroddiad asesiad poblogaeth ac ar ôl ei gwblhau.**

**Rydych chi'n ymgymryd â'r asesiad o dan y ddeddfwriaeth ganlynol**

- Adran 14 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)
- Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesiadau Poblogaeth) (Cymru) 2015
- Rheoliadau Gofal a Chymorth (Trefniadau Partneriaeth ar gyfer Asesiadau Poblogaeth) (Cymru) 2015
- Cod Ymarfer a chanllawiau Rhan 2 ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol a threfniadau partneriaeth (Swyddogaethau Cyffredinol) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

**Mae'n rhaid i chi**

Asesu ar y cyd â'ch partneriaid BILl:

a) faint o bobl yn ardal eich awdurdod y mae arnynt angen gofal a chymorth;

b) faint o ofalwyr yn eich ardal y mae arnynt angen cymorth;

c) faint o bobl yn eich ardal nad yw eu hanghenion gofal a chymorth (neu, yn achos gofalwyr, cymorth) yn cael eu bodloni (gan yr awdurdod, y Bwrdd neu fel arall);

ch) ystod a lefel y gwasanaethau y mae eu hangen i fodloni anghenion gofal a chymorth pobl yn eich ardal (gan gynnwys anghenion cymorth gofalwyr);

d) ystod a lefel y gwasanaethau y mae eu hangen i gyflawni'r dibenion yn adran 15(2) (gwasanaethau ataliol) yn eich ardal; ac

dd) y camau y mae angen eu cymryd i ddarparu ystod a lefel y gwasanaethau a nodwyd yn unol â pharagraffau (ch) a (d) trwy gyfrwng y Gymraeg.

Llunio adroddiad ar ganlyniad yr asesiad ar y cyd â'ch partneriaid BILl.

## GOFYNION O DAN Y DDEDDF

**Wrth ymgymryd â'r asesiad, mae'n rhaid i chi**

- Ystyried y datganiad yn ymwneud â llesiant pobl yng Nghymru y arnynt angen gofal a chymorth a gofalwyr y mae arnynt angen cymorth, sy'n cynnwys canlyniadau i'w cyflawni (a gyhoeddwyd o dan adran 8 y Ddeddf).

**FFRAMWAITH CANLYNIADAU**

- Ymgysylltu â phobl (gan gynnwys oedolion a phlant a chanddynt anghenion gofal a chymorth, gofalwyr, a rhieni plant a chanddynt anghenion gofal a chymorth) mewn ffordd arloesol a sefydlu gweithdrefn ar gyfer yr ymgysylltu hyn.
- Ystyried creu panel ffurfiol o bobl, gan gynnwys y rhai hynny sy'n defnyddio gwasanaethau a gofalwyr, at ddibenion ymgysylltu.
- Ymgysylltu â sefydliadau'r sector preifat a'r trydydd sector sy'n ymwneud â darparu gofal a chymorth neu wasanaethau ataliol i'r boblogaeth leol.

**YMGYSYLLTU**

- Ffurfio trefniant partneriaeth â'ch Bwrdd Iechyd Lleol (BILl) ac awdurdodau lleol eraill yn ardal eich BILl i gydlynu'r ymarfer asesu a chynhyrchu'r adroddiad cyfunol.
- Ffurfio cydbwyllgor i fod yn gyfrifol am reoli'r trefniant partneriaeth a sefydlwyd i gydlynu'r ymarfer.
- Cytuno ar gorff cydlynu arweiniol i gydlynu a rheoli'r broses o gynhyrchu'r adroddiad asesiad poblogaeth.

**LLYWODRAETHU**

- Ystyried cynlluniau strategol eraill.

**DEDDFWRIAETH ARALL**

## BUDDION

**Dylech fod yn ceisio cyflawni nifer o fuddion a chanlyniadau trwy'r asesiad, yn ogystal â'ch gofynion deddfwriaethol. Bydd deall y rhain o'r cychwyn yn eich galluogi i fabwysiadu ymagwedd strategol tuag at yr asesiad.**

- Sylfaen dystiolaeth eglur a phenodol mewn perthynas ag anghenion gofal a chymorth ac anghenion gofalwyr i fod yn sail i gomisiynu a chyflawni eu swyddogaethau statudol. Drwy gydol y ddogfen hon, mae anghenion gofal a chymorth yn cynnwys y rhai hynny sy'n profi camdriniaeth neu esgeulustod, neu sydd mewn perygl o'u profi, ac yn achos plant, mathau eraill o niwed.
- Pwyslais cliriach ar ddulliau ataliol ar gyfer y rhai hynny sy'n profi camdriniaeth neu esgeulustod, neu sydd mewn perygl o'u profi, ac yn achos plant, mathau eraill o niwed.
- Gwneud penderfyniadau gweithredol mwy gwybodus.
- Cynllunio, dylunio a datblygu gwasanaethau'n fwy effeithlon ac effeithiol sy'n addas i fodloni anghenion yn y dyfodol.
- Gwybodaeth well i hyrwyddo llesiant pobl y mae arnynt angen gofal a chymorth a gofalwyr y mae arnynt angen cymorth.
- Ffordd well o gomisiynu gwasanaethau, gan gynnwys comisiynu ar y cyd, sydd wedi'i seilio ar dystiolaeth yn ymwneud ag asesiad o anghenion, gwasanaethau a chanlyniadau.
- Tystiolaeth er mwyn blaenoriaethu integreiddio gwasanaethau.
- Mwy o ymdrech i ysgogi newid.
- Pwyslais cliriach ar ddulliau ataliol o fodloni anghenion gofal a chymorth.
- Gwybodaeth well i ategu penderfyniadau am adnoddau a chyllidebau.
- Gwasanaethau a chanlyniadau sydd wedi'u targedu, yn gynaliadwy, yn effeithiol ac yn effeithlon.
- Gwybodaeth well i hyrwyddo mentrau cymdeithasol, cwmnïau cydweithredol, gwasanaethau a arweinir gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector.
- Gwybodaeth well i lywio'r gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth sy'n ofynnol.
- Cydberthynas gryfach â Chynlluniau Tymor Canolig Integredig y GIG a'r meysydd cynllunio lleol a sefydlwyd yn dilyn Gosod y Cyfeiriad a gyhoeddwyd yn 2010.
- Gwybodaeth well i gynhyrchu strategaeth ddigartrefedd.

## DADANSODDI

**Wrth ymgymryd â'r dadansoddiad sy'n ofynnol, mae'n rhaid i chi**

- Ddefnyddio nifer o ffynonellau gwybodaeth.

CASGLU A DADANSODDI TYSTIOLAETH

- Rhowch sylw i'r fframwaith canlyniadau cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol a'r mesurau perfformiad yn y fframwaith mesur perfformiad ar gyfer awdurdodau lleol, a geir yn y cod ymarfer mewn perthynas â mesur perfformiad gwasanaethau cymdeithasol, a gyhoeddwyd o dan adran 145 y Ddeddf.
- Mae'r fframwaith canlyniadau cenedlaethol yn amlinellu'r canlyniadau llesiant pwysig sy'n gallu gwneud gwahaniaeth go iawn i fywydau pobl. Mae'n rhaid i wasanaethau fod yn ystyriol o'r rhain wrth gynllunio ar gyfer gofal a chymorth.

FFRAMWAITH CANLYNIADAU

- Byddwch yn arloesol wrth amlygu ffynonellau data lleol, ymchwil ac ystadegau a allai gyfrannu at asesiad, gan gynnwys defnyddio technoleg.

CASGLU TYSTIOLAETH, THEMÂU CRAIDD

- Ystyriwch y wybodaeth a geir o weithgarwch ymgysylltu.

YMGYSYLLTU

- Ystyriwch ganfyddiadau asesiadau presennol, fel y rhai hynny a gynhaliwyd yn rhan o gyflwyno'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf.

ASESIADAU PRESENNOL, GWYBODAETH, CYNGOR A CHYMORTH

- Cyflawni cydbwysedd o ran gwybodaeth ansoddol a ategir gan wybodaeth feintiol.
- Defnyddio data ystadegol helaeth ond osgoi ymgymryd â'r asesiad poblogaeth fel ymarfer ystadegol yn unig.
- Ystyried ymchwil gan brifysgolion a sefydliadau lleol eraill.

CASGLU A DADANSODDI TYSTIOLAETH

- Ystyried sut mae ymarferwyr, gweithwyr proffesiynol ac aelodau staff eraill mewn awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol, yn ogystal ag mewn asiantaethau partner fel yr heddlu ac addysg, yn debygol o fod â safbwyntiau gwybodus am raddau anghenion gofal a chymorth ac anghenion gofalwyr yn yr ardal.

YMGYSYLLTU

- Cael gwybod am y broses asesu unigol ar gyfer anghenion gofal a chymorth, neu anghenion cymorth gofalwyr (fel y'i ham-linellwyd yn y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd mewn perthynas â Rhan 3 y Ddeddf).

ASESIADAU PRESENNOL, GWYBODAETH, CYNGOR A CHYMORTH

- Ystyried gwybodaeth reoli a gasglwyd gan y Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (IAA) am yr ystod a'r math o ymholiadau 'gofal a chymorth' yr ymdrinnir â hwy.

IAA

## GOFYNION YR ADRODDIAD

Mae rhagor o fanylion am baratoi a chyhoeddi adroddiadau ar gael yn adran Adroddiadau'r **CANLLAW CYMORTH**. Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o'r gofynion adrodd.

**Mae'n rhaid i'ch adroddiad**

- Ymdrin ag ardal eich awdurdod lleol

**CYHOEDDI**

- Cael ei gyfuno â'r adroddiadau eraill yn ardal eich Bwrdd Iechyd Lleol mewn un adroddiad ar y cyd

**CYHOEDDI**, **LLYWODRAETHU**

- Cael ei gymeradwyo gan eich Cabinet, y cyngor a'r Bwrdd Iechyd Lleol

**LLYWODRAETHU**

- Cael ei gyhoeddi ar eich gwefan chi a gwefan eich Bwrdd Iechyd Lleol a fu'n ymwneud â'i gynhyrchu.
- Cael ei anfon at Weinidogion Cymru ar yr adeg cyhoeddi.

**CYHOEDDI**

- Cynnwys Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

**ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB**

- Y telir amdano gan yr holl gyrff a'i cynhyrchodd, h.y. pawb sy'n rhan o'r trefniant partneriaeth.

**LLYWODRAETHU**

- Cael ei gynhyrchu erbyn 1 Ebrill 2017 ac wedi hynny unwaith ym mhob cylch etholiad llywodraeth leol.

**CYHOEDDI**

- Cael ei adolygu fel y bo'r angen ond ar unwaith ganol ffordd drwy'r cyfnod asesiad poblogaeth.

**ADOLYGU**

- Cynnwys dwy adran:

**CYHOEDDI**

1. yr asesiad o anghenion;
2. ystod a lefel y gwasanaethau sydd eu hangen.

**Yn Adran 1, mae'n rhaid i'ch adroddiad**

- Gynnwys manylion sut rydych wedi ymgysylltu â phobl ar y cyd wrth ei gynhyrchu a sut rydych wedi ymgysylltu â darparwyr gwasanaeth.

**CYHOEDDI**, **YMGYSYLLTU**

- Cael ei strwythuro o amgylch themâu craidd cyffredinol y mae'n rhaid iddynt gynnwys:
  - plant a phobl ifanc;
  - pobl hŷn;
  - iechyd / anableddau corfforol;
  - anabledd dysgu/awtistiaeth;
  - iechyd meddwl;
  - nam ar y synhwyrau;
  - gofalwyr y mae arnynt angen cymorth; a
  - thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

**CYHOEDDI**, **THEMÂU CRAIDD**

- Cynnwys dadansoddiad gofodol o dystiolaeth o dan pob thema er mwyn datblygu dealltwriaeth o ble ac i ba raddau y mae'r themâu craidd wedi'u crynhoi neu wedi'u gwasgaru ar draws yr ardal asesu.

**CYHOEDDI**, **CASGLU A DADANSODDI TYSTIOLAETH**

- Amlinellu'r gwahaniaethau o ran y themâu craidd ar draws yr holl awdurdodau lleol ac ardaloedd clwstwr y GIG yn yr ardal asesu.

**CYHOEDDI**, **THEMÂU CRAIDD**

- Cynnwys dadansoddiad o'r dystiolaeth o ran grwpiau oedran lle y bo'n briodol.
- Amlinellu i ba raddau nad yw anghenion yn cael eu bodloni.

**CYHOEDDI**, **CASGLU A DADANSODDI TYSTIOLAETH**

- Ystyried anghenion gofal a chymorth poblogaethau mewn sefydliadau diogel er mwyn cyflawni gofynion adran 11 y Ddeddf.

**SEFYDLIADAU DIOGEL**, **CASGLU A DADANSODDI TYSTIOLAETH**

- Egluro proffil y gymuned Gymraeg ei hiaith.

**Y GYMRAEG**

**Yn Adran 2 eich adroddiad, mae'n rhaid i chi**

- Gyflwyno'r asesiad o ystod a lefel y gwasanaethau y mae eu hangen yn unol â'r un themâu craidd a ddefnyddiwyd yn Adran 1.

**CYHOEDDI, THEMÂU CRAIDD**

- Cynnwys asesiad o'r graddau y gallai anghenion a nodwyd mewn perthynas â'r themâu craidd gael eu bodloni trwy ddarparu gwasanaethau mewn partneriaeth â'r Bwrdd Iechyd Lleol ar gyfer eich ardal ac awdurdodau lleol eraill yn ardal y Bwrdd Iechyd Lleol hwnnw.

**CYHOEDDI, CASGLU A DADANSODDI TYSTIOLAETH, PARTNERIAETHAU**

- Myfyrio ar sut rydych chi'n datblygu eich dyletswydd i hyrwyddo mentrau cymdeithasol, cwmnïau cydweithredol, gwasanaethau a arweinir gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector.
- Amlygu'r asedau ar lefel unigol, gymunedol a phoblogaeth a all helpu i greu gwasanaethau.

**MENTRAU CYMDEITHASOL, ATAL**

- Amlinellu'r asesiad o wasanaethau ataliol, gan gynnwys gwasanaethau eiriolaeth.
- Amlinellu sut y gellir cyflawni dull ataliol mewn partneriaeth â'r Bwrdd Iechyd Lleol ar gyfer eich ardal ac awdurdodau lleol eraill yn ardal eich Bwrdd Iechyd Lleol.

**ATAL**

- Amlygu'r camau gweithredu i ddarparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.

**Y GYMRAEG**

**YR ADRAN 'BETH'—RHESTR WIRIO**

**A ydych chi wedi ymgyfarwyddo â'r canlynol**

- ☐ **Y gofynion deddfwriaethol**
- ☐ **Y buddion rydych chi'n gobeithio eu cyflawni**
- ☐ **Yr hyn y mae angen i'ch adroddiad ymdrin ag ef?**

# CYNLLUNIO EICH ASESIAD POBLOGAETH

RHEOLI PROSIECT

LLYWODRAETHU

PARTNERIAETHAU

CYNLLUNIO'R PROSIECT

(11 CAM)

## RHEOLI PROSIECT

Y ffordd orau o fynd i'r afael â'r asesiad yw meddwl amdano fel prosiect ymchwil mawr – yr hyn y cyfeiriwn ato fel "astudiaeth" weithiau – oherwydd bydd hyn yn eich galluogi i sylweddoli maint a graddau'r dasg a buddion cynllunio da. Cyn gwneud unrhyw beth arall, dylech ymgyfarwyddo â'r gofynion statudol a geir yn y Ddeddf, y rheoliadau a'r Cod Ymarfer er mwyn sicrhau eich bod chi'n deall y dasg. Yna, dylech wneud y canlynol ar unwaith:

- Sefydlu eich trefniadau llywodraethu, gan gynnwys sefydlu Cydbwyllgor fel a bennir yn y Cod Ymarfer.
- Amlygu'r unigolyn/unigolion a'r awdurdod lleol neu bartner arall a fydd yn arwain y prosiect a'r rhai hynny a fydd yn cyfrannu at ymgymryd â'r gwaith.
- Sefydlu tîm prosiect.
- Cadarnhau llinellau adrodd rhwng tîm y prosiect a'r Cydbwyllgor.
- Amlygu a chytuno ar ba arferion rheoli prosiect rydych chi'n bwriadu eu defnyddio, gan gofio y gallai asiantaethau partner fod yn defnyddio modelau gwahanol ar hyn o bryd.

Bydd angen i chi ystyried sut i gynnal yr asesiad poblogaeth ar yr un pryd â chynnal yr asesiad o lesiant lleol sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Mae cyngor ac arweiniad ar fynd i'r afael â hyn ar gael yn adran **LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL** y pecyn cymorth.

Nid ydym wedi cynnwys llinell amser benodol yn y pecyn cymorth hwn gan y bydd angen ystyried amgylchiadau lleol. Fodd bynnag, argymhellwn yn gryf eich bod chi'n ceisio amlygu'r holl dasgau sy'n eich wynebu yn awr, gan gynnwys amser ar gyfer prosesau llywodraethu, cyfieithu a materion logistaidd eraill a allai effeithio ar eich gallu i gyhoeddi eich adroddiad yn brydlon. Mae siart GANTT yn debygol o fod yn rhan allweddol o'ch trefniadau rheoli prosiect.

**Mae trosolwg o weithgarwch allweddol wedi'i gynnwys yn y diagram Cynhyrchu Adroddiad Asesiad Poblogaeth: Gweithgareddau Allweddol**

## LLYWODRAETHU

### Mae'n rhaid i chi:

- Ffurfio trefniant partneriaeth â'ch Bwrdd Iechyd Lleol a'r awdurdodau lleol eraill yn ardal eich BILl.
- Ffurfio cydbwyllgor â'r cyrff yn y bartneriaeth ar gyfer cyfnod cyfan pob asesiad poblogaeth.
- Trwy'r cydbwyllgor, a chan roi ystyriaeth ddyledus i arbenigedd, gwybodaeth ac adnoddau perthnasol presennol, enwebu corff cydlynu arweiniol a fydd yn gyfrifol am gydlynu a rheoli'r broses o gynhyrchu'r asesiad poblogaeth, ond mae'n rhaid i'r holl gyrff eraill gymryd rhan yn yr ymarfer fel sy'n ofynnol gan y corff cydlynu arweiniol. Gall y corff cydlynu arweiniol a enwebwyd gael ei adolygu pan wêl y bartneriaeth yn dda.

### Mae'n rhaid i'r corff cydlynu arweiniol:

- Sicrhau bod gan yr adroddiad asesiad poblogaeth cyfunol fformat cyson a'i fod yn dangos yn eglur i ba raddau y mae themâu craidd wedi'u crynhoi neu wedi'u gwasgaru ar draws ardal y trefniant partneriaeth ac, yn benodol, mewn perthynas â phob ardal awdurdod lleol yn y trefniant partneriaeth.
- Datrys materion a allai rwystro cynhyrchu adroddiad poblogaeth cyfunol.
- Adolygu asesiadau poblogaeth yn barhaus.

### Pwyntiau ychwanegol

- Os nad yw'n bosibl, mewn amgylchiadau eithriadol, i awdurdod lleol neu Fwrdd Iechyd Lleol gytuno ar agwedd benodol ar yr adroddiad asesiad poblogaeth cyfunol, bydd yr awdurdod neu'r Bwrdd Iechyd hwnnw'n cadw ei ddyletswydd i fodloni'r gofynion statudol a amlinellir yn adran 14 y Ddeddf.
- Diben y trefniadau partneriaeth yn syml yw cyflawni dibenion adran 14 y Ddeddf wrth gynnal yr asesiad, ond fe allent fod yn ddefnyddiol wrth gyflawni swyddogaethau cydlynu eraill hefyd. Mae adran ar wahân o'r pecyn cymorth hwn yn esbonio eich rhwymedigaethau ehangach mewn perthynas â threfniadau partneriaeth o dan Ran 9 y Ddeddf.

## PARTNERIAETH

- Mae'n rhaid i'r holl gyrff yn y trefniant partneriaeth gyfrannu at unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â'r ymarfer. (Dylai costau fod yn lleiafsymiol a chynnwys amser staff yn bennaf, er y gallai rhai costau fod yn gysylltiedig ag argraffu neu gynnal gwaith ymgysylltu â dinasyddion).
- Mae'n rhaid i'r holl gyrff yn y trefniant partneriaeth rannu gwybodaeth sy'n ofynnol i gynnal yr asesiad poblogaeth. Dylai unrhyw wybodaeth y gellid adnabod unigolion wrthi gael ei rhannu o fewn egwyddorion Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI). Mae pob Bwrdd Iechyd Lleol ac awdurdod lleol yng Nghymru wedi llofnodi Cytundeb WASPI.

### Cyngor

- Byddwch eisoes wedi sefydlu trefniadau partneriaeth traws-sector. Gwnewch yn siwr fod y rhain yn addas i'r diben o ran cynnal asesiadau poblogaeth a diwygiwch nhw lle y bo'r angen.
- Gwnewch yn siwr fod y cydbwyllgor yn cyfarfod ar adegau priodol (nid oes angen iddo gyfarfod yn aml) a bod ganddo linellau adrodd eglur trwy'r bartneriaeth.
- Dylid cynnal amcangyfrif o'r costau'n gynnar fel y gellir paratoi cyllidebau. Yn ddelfrydol, dylech greu cyllideb gyfun. Gellir talu am gostau trwy gyllid neu, os teimlir bod hyn yn fwy priodol, trwy ddyrannu adnoddau ar ffurf amser neu bobl.
- Mae rhagor o wybodaeth am WASPI ar gael yn:

http://www.waspi.org

## TREFNIADAU PARTNERIAETH

Mae'r adran hon yn rhoi manylion am y trefniadau partneriaeth a'r angen i sefydlu bwrdd rhanbarthol. Mae'n rhaid i'r broses asesiad poblogaeth gael ei llywodraethu o fewn y cyd-destun hwn.

Mae'r Canllawiau Statudol ar Ran 9 yn datgan:

1. Bod rhaid i chi wneud trefniadau i hyrwyddo cydweithredu â'ch partneriaid perthnasol ac eraill, o ran oedolion a chanddynt anghenion gofal a chymorth, gofalwyr a phlant.
2. Bod rhaid i bartneriaid perthnasol gydweithredu ag awdurdodau lleol, a rhoi gwybodaeth iddynt, at ddiben eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol.
3. Bod rhaid i chi weithio gyda'ch gilydd i ystyried p'un a fydd modelau busnes dielw yn bodloni anghenion eich poblogaeth leol orau.
4. Bod rhaid i chi sefydlu cronfeydd cyfun mewn perthynas ag:
    - Arfer swyddogaethau llety cartref gofal;
    - Arfer swyddogaethau cymorth i deuluoedd (Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd);
    - Swyddogaethau a arferir ar y cyd o ganlyniad i'ch asesiad poblogaeth a'ch cynllun dilynol.
5. Bod rhaid i chi hefyd ystyried cronfa gyfun ar gyfer unrhyw gyllid arall a geir gan Lywodraeth Cymru.
6. Bod rhaid i chi sefydlu tîm integredig i arfer swyddogaethau cymorth i deuluoedd - Tîm Integredig Cymorth i Deuluoedd.
7. Bod rhaid i chi sefydlu Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i reoli a datblygu gwasanaethau er mwyn sicrhau cynllunio strategol a gwaith partneriaeth rhwng awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol ac i sicrhau bod gwasanaethau, gofal a chymorth effeithiol ar gael i fodloni anghenion eu poblogaethau unigol orau.
8. Y bydd eich Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn cynnwys y Bwrdd Iechyd Lleol a'r holl awdurdodau lleol yn ei ardal.

### Dyletswyddau a chyfrifoldebau eich Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol

Sicrhau bod cyrff y bartneriaeth yn cydweithio'n effeithiol i:

- Ymateb i'r asesiad poblogaeth.
- Gweithredu'r cynlluniau sy'n deillio ohono.

### CYNLLUNIAU AR GYFER Y DYFODOL

Sicrhau bod cyrff y bartneriaeth yn darparu digon o adnoddau ar gyfer trefniadau'r bartneriaeth.

- Hyrwyddo sefydlu cronfeydd cyfun lle y bo'n briodol.
- Sicrhau bod yr holl bartneriaid yn cydweithio'n effeithiol i wella canlyniadau ar gyfer pobl yn y rhanbarth.
- Sicrhau bod gwasanaethau ac adnoddau'n cael eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon i alluogi hyn.
- Blaenoriaethu integreiddio gwasanaethau mewn perthynas â'r canlynol:

- Pobl hŷn ag anghenion cymhleth a chyflyrau tymor hir, gan gynnwys dementia.
- Pobl ag anableddau dysgu.
- Gofalwyr, gan gynnwys gofalwyr ifanc.
- Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd.
- Plant ag anghenion cymhleth o ganlyniad i anabledd neu salwch.

**DEDDFWRIAETH A STRATEGAETHAU**

- Sicrhau ymagwedd integredig tuag at ddatblygu gwasanaethau, gofal a chymorth, sy'n canolbwyntio ar gyfleoedd ar gyfer atal ac ymyrraeth gynnar.
- Sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu a'i defnyddio'n effeithiol fel bod gwasanaethau, gofal a chymorth yn cael eu darparu'n well.
- Darparu arweinyddiaeth strategol ar ddefnyddio technoleg a systemau gwybodaeth cyffredin.
- Cyfnerthu datblygiad Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd, a sicrhau bod nifer o gyfrifoldebau penodol sy'n gysylltiedig â Thimau Integredig Cymorth i Deuluoedd yn cael eu cyflawni, gan gynnwys bod ganddynt ddigon o adnoddau i gyflawni eu swyddogaethau.
- Datblygu ymagwedd integredig tuag at ddarparu gwasanaethau i blant ag anghenion cymhleth.
- Ystyried pa drefniadau ychwanegol neu amgen y gallai fod eu hangen i integreiddio gwasanaethau yn ymwneud ag iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau er mwyn gwella canlyniadau i unigolion a/neu ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithiol. Dylai hyn hefyd gynnwys ystyried pa drefniadau a fyddai'n fwy effeithiol ar lefel genedlaethol, yn hytrach na rhanbarthol neu leol.
- Sicrhau ymateb i'r gofynion eiriolaeth ar gyfer pob unigolyn.
- Sicrhau bod gwybodaeth, cyngor a chymorth yn cael eu cynnig mewn modd sy'n hygyrch ac yn gweddu i anghenion y bobl sy'n byw yn eich rhanbarth.
- Datblygu a chydlynu trefniadau partneriaeth ffurfiol neu anffurfiol.
- Paratoi adroddiad ar i ba raddau y cyflawnwyd amcanion y bwrdd. Mae'n rhaid i'r adroddiad hwn gael ei gyflwyno i Weinidogion Cymru a chynnwys y manylion penodol a geir ym Mharagraff 34 y Cod Ymarfer. Mae'n rhaid i'r adroddiad cyntaf gael ei baratoi a'i gyflwyno erbyn 1 Ebrill 2017. Mae'n rhaid i adroddiadau dilynol gael eu paratoi a'u cyflwyno'n flynyddol.
- Mabwysiadu strwythurau priodol ar gyfer sicrhau bod gwasanaethau integredig yn cael eu darparu. Gallai hyn gynnwys sefydlu grwpiau rheoli neu weithredol, yn ogystal â thimau integredig ar gyfer meysydd gwasanaeth penodol. Bydd angen datblygu cytundebau ysgrifenedig ar gyfer unrhyw drefniadau partneriaeth sy'n cynnwys dirprwyo swyddogaethau.
- Goruchwylio a llywodraethu trefniadau partneriaeth.

**LLYWODRAETHU**, **PARTNERIAETHAU**

## Llywodraethu eich Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol

Dylai cylch gorchwyl eich Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol egluro pa un a oes gan aelodau'r bwrdd awdurdod dirprwyedig i wneud penderfyniadau gan eu cyrff neu sefydliadau unigol, lle y bo'n briodol

Mae'n rhaid i'r aelodaeth gynnwys y canlynol, ond nid oes angen iddi fod yn gyfyngedig iddynt o reidrwydd:

a) o leiaf un aelod etholedig o awdurdod lleol a sefydlodd y bwrdd partneriaeth rhanbarthol;

b) o leiaf un aelod o Fwrdd Iechyd Lleol a sefydlodd y bwrdd partneriaeth rhanbarthol;

c) yr unigolyn a benodwyd yn gyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol o dan adran 144 y Ddeddf o ran pob awdurdod lleol a sefydlodd y bwrdd partneriaeth rhanbarthol, neu ei gynrychiolydd enwebedig;

ch) cynrychiolydd o'r Bwrdd Iechyd Lleol a sefydlodd y bwrdd partneriaeth rhanbarthol;

d) dau unigolyn sy'n cynrychioli buddiannau sefydliadau trydydd sector yn yr ardal a gwmpasir gan y bwrdd partneriaeth rhanbarthol;

dd) o leiaf un unigolyn sy'n cynrychioli buddiannau darparwyr gofal yn yr ardal a gwmpasir gan y bwrdd partneriaeth rhanbarthol;

e) un unigolyn i gynrychioli pobl ag anghenion gofal a chymorth yn yr ardal a gwmpasir gan y bwrdd partneriaeth rhanbarthol;

f) un unigolyn i gynrychioli gofalwyr yn yr ardal a gwmpasir gan y bwrdd partneriaeth rhanbarthol.

Gall unigolion eraill gael eu cyfethol fel y gwelwch yn briodol.

Mae'n rhaid i chi ddatblygu a llofnodi cytundebau ysgrifenedig yn ymwneud ag unrhyw drefniadau partneriaeth ffurfiol sy'n cynnwys dirprwyo swyddogaethau neu gyfuno cronfeydd.

## Cronfeydd Cyfun

Mae'r gofyniad am gronfeydd cyfun ar gyfer swyddogaethau cymorth i deuluoedd a swyddogaethau ar y cyd sy'n deillio o'ch asesiad poblogaeth yn effeithiol o 6 Ebrill 2016, ac ar gyfer llety cartref gofal o 6 Ebrill 2018. Dylech wneud gwaith paratoi o ran yr olaf i ffurfio datblygiad gwasanaethau yn y dyfodol a chewch gyflwyno'r trefniadau newydd cyn 2018 os dymunwch. Mae'r gwaith yn cynnwys paratoi dadansoddiad o'r farchnad i gynnwys anghenion hunangyllidwyr, cytuno ar ddatganiad ynghylch sefyllfa'r farchnad a strategaeth gomisiynu integredig a phriodol, cytuno ar fanyleb a chontract cyffredin, datblygu ymagwedd integredig tuag at gytuno ar ffïoedd gyda darparwyr ac ymagwedd integredig tuag at sicrhau ansawdd, a mabwysiadu dull tryloyw o ddefnyddio adnoddau.

Dylai eich cytundeb partneriaeth gynnwys y trefniadau llywodraethu, gan gynnwys atebolrwydd, gwneud penderfyniadau a sut y bydd y trefniadau cyllideb gyfun yn cael eu rheoli.

Gall y gyllideb gyfun gael ei chynnal a'i rheoli gan bartner statudol, neu fe all gael ei chynnal gan bartner statudol a'i rheoli ar ei ran gan sefydliad arall sydd â chontract i wneud hynny.

Dylech ystyried sut i gynnwys cynrychiolwyr archwilio allanol lleol i ychwanegu gwerth at y cytundeb arfaethedig, gan gynnwys gwneud sylwadau ar oblygiadau archwilio a chyfrifyddu cytundeb drafft lleol.

### Pwyntiau ychwanegol

Dylech wneud trefniadau priodol ar lefel strategol i ymgysylltu â byrddau a sefydliadau eraill fel y bo'r angen.

Fe allech ddymuno gwahodd sefydliadau neu unigolion i fynychu cyfarfodydd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol neu is-grwpiau fel y bo'n briodol.

Dylech feithrin ymgysylltu trwy rwydweithiau neu fforymau sydd eisoes yn bodoli, neu drwy ddatblygu rhai newydd. Mae'n rhaid i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau ymwneud yn weithredol â gwaith y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

### YMGYSYLLTU

Er y bydd un aelod o'r bwrdd yn cynrychioli pobl ag anghenion gofal a chymorth, dylech gydnabod na ellir disgwyl i'r unigolyn hwn gynrychioli pawb y mae arnynt angen gofal a chymorth. Felly, bydd angen iddynt weithio gyda'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r panel dinasyddion (neu grwpiau eraill perthnasol) i lywio datblygiad a darpariaeth gwasanaethau integredig.

Ni ellir disgwyl i gynrychiolwyr y trydydd sector gynrychioli pob sefydliad yn eu sector, ond bydd angen iddynt sicrhau yr ymgysylltir yn effeithiol â'r sector a'i fod yn gallu dylanwadu ar ddarparu gwasanaethau integredig ac ymwneud â hynny, fel y bo'n briodol. Dylai fod un cynrychiolydd ar gyfer sefydliadau trydydd sector lleol a chynrychiolydd arall ar gyfer sefydliadau trydydd sector cenedlaethol.

**RHESTR WIRIO RHEOLI PROSIECT**

**A ydych chi wedi amlinellu**

- ☐ Trefniadau rheoli prosiect
- ☐ Rolau a chyfrifoldebau
- ☐ Trefniadau llywodraethu
- ☐ Trefniadau partneriaeth a llywodraethu a ddisgwylir o dan Ran 9 y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant?

## CYNLLUNIO'R PROSIECT

Mae'r canlynol yn gynllun amlinellol o'r camau y bydd angen i chi eu cynnwys yn eich cynllun prosiect ochr yn ochr â'r trefniadau llywodraethu a phartneriaeth y dylech fod wedi'u sefydlu eisoes. Maen nhw'n canolbwyntio'n bennaf ar elfennau ymchwil y gwaith. Trwy roi ystyriaeth i'r camau hyn ar ddechrau'r ymarfer, gallwch greu darlun o'r gwaith sydd o'ch blaen a'r ffordd orau o'i drefnu. Ni fyddwch yn gallu datrys yr holl faterion ar y cam cynllunio hwn, ond byddwch mewn sefyllfa well i ragweld pa benderfyniadau y bydd angen i chi eu gwneud yn ddiweddarach.

### CAM 1 - Diffinio *amcan* yr Asesiad Poblogaeth

Dylai *amcan* eich asesiad amlygu'r hyn a fydd yn cael ei wneud. Dylai'r amcan fod yn eglur, yn benodol, yn fesuradwy, ac yn berthnasol i'r sefyllfa. Dylai amlygu'r grŵp targed ar gyfer yr asesiad, natur y penderfyniad(au) y bydd eu hangen, a chwmpas yr asesiad. Bydd gan yr amcan bwyslais eang ac awgrymir y canlynol fel enghraifft resymol o'r dasg o'ch blaen y gallech ddymuno ei mabwysiadu i arwain eich gwaith:

***Cydgynhyrchu sylfaen dystiolaeth eglur a phenodol mewn perthynas ag anghenion gofal a chymorth ac anghenion gofalwyr er mwyn ategu'r broses o gyflawni swyddogaethau statudol yr awdurdod lleol a llywio amryw benderfyniadau cynllunio, comisiynu a gweithredol.***

### CAM 2 - Amlygu'r *cyfranogwyr* tebygol yn yr astudiaeth

Yr hyn a olygwn wrth gyfranogwyr yw'r:

**Grŵp targed h.y. y rhai hynny sydd angen gofal a chymorth.**

Gallwch amlygu'r rhain mewn ffyrdd gwahanol, e.e. yn ôl oedran, rhyw, statws iechyd, a/neu leoliad). Cofiwch fod rhaid i'ch adroddiad gynnwys cyfeiriad penodol at **THEMÂU CRAIDD** canlynol:

- plant a phobl ifanc;
- pobl hŷn;
- iechyd / anableddau corfforol;
- anabledd dysgu/awtistiaeth;
- iechyd meddwl;
- nam ar y synhwyrau;
- gofalwyr y mae arnynt angen cymorth; a
- thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Wrth ystyried eich ymagwedd at gasglu data a gwybodaeth, felly, mae'n synhwyrol i chi ystyried mabwysiadu'r themâu hyn o'r dechrau fel fframwaith. Oherwydd y bydd angen i chi ystyried sut i ddadansoddi data yn ôl grwpiau oedran ac yn ofodol hefyd, e.e. yn ôl Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Lleol neu wardiau etholiadol, byddai'n ddoeth meddwl nawr ynglŷn â strwythuro eich methodoleg er mwyn sicrhau na fydd rhaid i chi ailedrych ar ffynonellau data i gael gwybodaeth fanylach yn ddiweddarach. Ceir rhagor o gyngor yn yr adran ar ddulliau ymchwil.

## Unrhyw rai eraill sy'n dylanwadu ar y grŵp targed

Mae'r rhain yn debygol o gynnwys aelodau teulu, grwpiau cymunedol, ymarferwyr, gweinyddwyr, a/neu lunwyr polisïau. Mae'r cod ymarfer yn pennu eich bod chi'n ymgysylltu â phobl benodol a'u cynnwys yn yr asesiad, gan gynnwys

- dinasyddion;
- defnyddwyr gwasanaeth;
- gofalwyr;
- plant sy'n defnyddio gwasanaethau a'u rhieni,
- grwpiau sydd ar yr ymylon a grwpiau lleiafrifol, gan gynnwys pobl ddigartref a Theithwyr,
- sefydliadau'r trydydd sector;
- sefydliadau preifat;
- darparwyr gwasanaeth

Dylech ystyried y rhain fel cyfranogwyr yn eich astudiaeth. Bydd y gyllideb a'r adnoddau dynol sydd ar gael yn effeithio ar y cyfranogwyr a ddewiswch. Cofiwch, y cyfan yr ydych chi'n ei wneud ar hyn o bryd yw cynllunio, felly mae'n annhebygol y bydd eich rhestr gyfranogwyr 100% yn gywir ar y cam hwn.

**YMGYSYLLTU**

## CAM 3 - Amlygu *sail resymegol* neu ddiben yr Asesiad

Mae ***sail resymegol*** **neu** ***ddiben*** unrhyw asesiad o anghenion yn esbonio pam y mae'n bwysig cael y wybodaeth hon (pam mae'r asesiad yn cael ei gynnal) a sut y bydd y canlyniadau'n cael eu defnyddio. Mae hyn yn cynnwys amlygu a chynnwys y rhai hynny a fydd yn derbyn a defnyddio'r canlyniadau.

Er enghraifft:

***Bydd yr asesiad poblogaeth yn sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cynllunio a'u datblygu mewn ffordd effeithlon ac effeithiol gan bartneriaid sector cyhoeddus i hyrwyddo llesiant pobl a chanddynt anghenion gofal a chymorth. Bydd yr asesiad yn sbarduno newid, gan gynnwys trwy alluogi awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol i ganolbwyntio ar ymagweddau at ofal a chymorth sy'n atal anghenion rhag digwydd neu waethygu. Bydd yn darparu'r wybodaeth sy'n ofynnol i gefnogi penderfyniadau am adnoddau a'r gyllideb; gan sicrhau bod gwasanaethau a chanlyniadau wedi'u targedu ac yn gynaliadwy, yn effeithiol ac yn effeithlon.***

Mae **Camau 4, 5 a 6** oll yn ymdrin â chasglu'r wybodaeth sydd ei hangen i wneud yr asesiad. Ceir cyngor ar hyn mewn man arall yn y pecyn cymorth hwn, felly ar hyn o bryd y cyfan y mae angen i chi ei wneud yw amlygu ystod yr ymagweddau rydych chi'n eu hystyried er mwyn deall gwaith yn y dyfodol a goblygiadau posibl o ran adnoddau.

**CASGLU TYSTIOLAETH**

Yn draddodiadol, bu tair ymagwedd at asesiadau anghenion cysylltiedig â gofal iechyd, y mae'n ymddangos eu bod yn berthnasol i asesiadau anghenion poblogaeth ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol.

Y rhain yw:

(a) **Ymagweddau epidemiolegol**: sy'n defnyddio data meintiol yn bennaf i amcangyfrif maint a chyfansoddiad y boblogaeth o ddiddordeb, gan gynnwys gwybodaeth am le, dros amser, ac yn ôl is -grwpiau poblogaeth allweddol; lefel yr angen (fel y dangosir gan fynychder clefyd, anabledd neu amgylchiadau bywyd anffafriol, er enghraifft) a'r gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd i fodloni'r anghenion hynny;

(b) **Ymagweddau cymharol**: sy'n defnyddio cymariaethau ar draws amser neu rhwng gwahanol ardaloedd daearyddol neu grwpiau poblogaeth i sefydlu anghenion posibl trwy amlygu ardaloedd neu grwpiau lle na cheir digon o ddarpariaeth o gymharu;

(c) **Ymagweddau corfforaethol**: sy'n casglu gwybodaeth ansoddol yn bennaf i helpu i ddeall safbwyntiau rhanddeiliaid (cleifion, y cyhoedd, gweithwyr proffesiynol, llunwyr polisïau ac ati) ynghylch anghenion presennol a blaenoriaethau ar gyfer darpariaeth yn y dyfodol.

Yn gyffredinol, mae angen pob un o'r tair ymagwedd hyn ar gyfer asesiad o anghenion poblogaeth a gwneud penderfyniadau dilynol. Mae pob un o'r tair yn berthnasol i benderfyniadau y mae angen eu gwneud yng Nghamau 4, 5 a 6 y model cynllunio.

## CAM 4 - Amlygu'r *wybodaeth* sydd i'w chasglu.

Yn gyntaf, bydd angen i chi benderfynu ar y math o wybodaeth y dylid ei chasglu. E.e. data demograffig, data grwpiau defnyddwyr, gwybodaeth am ganlyniadau cenedlaethol a phersonol. Mae'r Cod Ymarfer yn awgrymu y bydd angen gwybodaeth yn gyffredinol ac am nifer benodol o grwpiau a phynciau, sef

- plant a phobl ifanc;
- pobl hŷn;
- iechyd / anableddau corfforol;
- anabledd dysgu/awtistiaeth;
- iechyd meddwl;
- nam ar y synhwyrau;
- gofalwyr y mae arnynt angen cymorth; a
- thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Dylid penderfynu ar y math o wybodaeth sydd i'w chasglu yng nghyd -destun y canlyniadau sydd i'w cyflawni a osodwyd yn y Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol

http://gov.wales/topics/health/socialcare/well-being/?lang=en a'r fframwaith mesur perfformiad ar gyfer awdurdodau lleol

http://gov.wales/statistics-and-research/local-authority-social-services-data-collections/?lang=en

## CAM 5 - Dewis y *dulliau* ar gyfer casglu'r wybodaeth.

Mae'r cam hwn yn disgrifio sut y bydd angen casglu'r wybodaeth sy'n angenrheidiol.

Ceir cyngor ar ddulliau ymchwil mewn man arall yn y pecyn cymorth hwn, ond dylech ffurfio syniad cychwynnol ar yr adeg hon o ystod y dulliau rydych chi'n eu hystyried. Defnyddir y strategaethau canlynol yn aml, ond nid yw'n rhestr ragnodol a gellir defnyddio sawl un o'r strategaethau gan ddibynnu ar yr adnoddau sydd ar gael a pha mor briodol ydynt i'r dasg. **DULLIAU YMCHWIL**

a) ***Cyfweliadau â hysbyswyr allweddol***

b) ***Gwybodaeth bresennol*** **(h.y. o gronfeydd data, astudiaethau blaenorol)**.

c) ***Grwpiau ffocws*** Mae'r cod yn awgrymu y gallai paneli fod yn ffordd ddefnyddiol o gasglu gwybodaeth. Gellid ystyried panel o'r fath yn grŵp ffocws yn y cyd-destun hwn.

ch) ***Arolygon***

Mae'n bwysig cofio bod rhaid i'r dulliau a ddewisir weddu i'r amser a'r adnoddau sydd ar gael (arian, offer, gwybodaeth a sgiliau) gan y cyfranogwyr a'r ymchwilwyr, yn ogystal â'r angen.

## CAM 6 - Datblygu *offer casglu data*

Gallai'r rhain gynnwys, er enghraifft, **ffurflenni cyfweld, arolygon a holiaduron.**

Unwaith eto, cewch gyngor ar y rhain mewn man arall yn y pecyn cymorth hwn, felly'r cyfan rydych chi'n ei wneud yn awr yw ffurfio rhai syniadau cychwynnol er mwyn pennu hyd a lled y gwaith sydd o'ch blaen. I arbed adnoddau ychwanegol, fe allai fod yn bosibl defnyddio offer presennol, addasu offer presennol i fodloni'ch anghenion neu ddatblygu offer wedi'u teilwra i sefyllfa benodol, gan gydnabod bod awdurdodau lleol a'u partneriaid eisoes yn defnyddio ystod o ffer casglu data i ategu eu dulliau casglu gwybodaeth. Ewch ati yn awr i ganfod beth sydd ar gael yn eich ardal. Fodd bynnag, mae'r Cod Ymarfer yn cyfeirio at yr angen i fod yn arloesol yn hyn o beth, felly fe allai fod angen chwilio am ddulliau ac offer newydd hefyd.

Felly, erbyn i chi gyrraedd Cam 6, fe ddylai fod gennych ddealltwriaeth fwy eglur o'r wybodaeth sydd i'w chasglu, ei ffynhonnell, a'r dulliau a'r offer a ddefnyddir.

**DULLIAU YMCHWIL**

### CAM 7 - Dewis y *sampl, maint y sampl* a'r *weithdrefn samplu*

Ceir cyngor ar samplu mewn man arall, ond tybir na fydd yn bosibl casglu gwybodaeth o'r boblogaeth gyfan, felly mae'n rhaid dewis sampl neu is-set y bydd eu nodweddion allweddol yn gynrychioliadol o'r grŵp targed a'r rhai hynny sy'n dylanwadu ar y grŵp targed. Mae'r *sampl* yn is-set o'r boblogaeth darged y bydd y wybodaeth yn cael ei chasglu ohoni. Ar y cam cynllunio hwn, byddwch yn rhoi ystyriaeth gychwynnol i ba mor fawr y credwch y dylai eich sampl fod a pha mor bragmatig rydych chi'n bwriadu bod. Mae'n bwysig diffinio'r sampl yn ôl y bobl a fydd yn cael eu cynnwys neu eu heithrio o'r rhai sy'n cael eu samplu.

**DULLIAU YMCHWIL**

Mae'r Cod yn mynnu bod ystod eang o bobl yn cymryd rhan yn yr asesiad poblogaeth. Felly, mae'n debygol y bydd angen ymgysylltu â samplau o'r **cyhoedd, defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr, plant a'u rhieni, darparwyr gwasanaeth, sefydliadau'r trydydd sector, sefydliadau'r sector preifat, ymarferwyr, grwpiau nas clywir yn aml, pobl ddigartref.**

**YMGYSYLLTU**

### CAM 8 - Datblygu *amserlen*

Byddwch eisoes wedi sefydlu trefniadau llywodraethu a rheoli prosiect a allai fod wedi cynnwys cynllun prosiect cychwynnol. Ar y cam hwn, rydych chi'n symud o'r cam cynllunio manwl i weithredu, a bydd angen i'ch cynllun gweithredu adlewyrchu rheolaeth brosiect gadarn o'r broses asesu hefyd. Bydd hyn yn golygu pennu dyddiadau pendant ar gyfer dechrau a chwblhau, yn ogystal â chadarnhau atebolrwydd a chyfrifoldebau. Dylid defnyddio siart GANTT i amlygu eich amserlen fwriadedig, gan gydnabod y gallai fod angen i chi ei diwygio yn unol â digwyddiadau wrth i'r astudiaeth fynd rhagddi.

### CAM 9 - Cynnal yr asesiad

Mae'r pecyn cymorth hwn wedi'i ddatblygu i'ch cynorthwyo i gynnal yr asesiad.

### CAM 10 - Dadansoddi a chrynhoi'r canlyniadau

Ceir cyngor ychwanegol mewn man arall yn y pecyn cymorth hwn, ond yn awr dylech gynnal asesiad cychwynnol o'r offer dadansoddol sydd ar gael i chi. Bydd y rhain yn cynnwys rhaglenni dadansoddi ystadegol fel EPI-Info neu SPSS a allai gael eu defnyddio i dablu a dadansoddi data meintiol. Dylech hefyd amlygu a oes gennych chi'r sgiliau, y profiad a'r galluoedd yn eich tîm prosiect i ymgymryd â'r gwaith dadansoddi angenrheidiol.

**DADANSODDI TYSTIOLAETH**

## CAM 11 - Cyflwyno'r wybodaeth

Mae'r Cod yn rhagnodol ynglŷn ag agweddau ar gyflwyno'r adroddiad a bydd angen ei ddilyn ar y cam terfynol hwn wrth ysgrifennu'r adroddiad.

**ADRODDIADAU**

### RHESTR WIRIO RHEOLI PROSIECT

A ydych chi wedi

- ☐ Deall y canllaw cynllunio amlinellol a sut y bydd yn berthnasol i'ch asesiad?
- ☐ Sefydlu cynllun cychwynnol ar gyfer yr hyn y byddwch chi'n ei wneud ar bob cam o'r broses?

# Cynnwys Adnoddau

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Casglu a Dadansoddi Tystiolaeth** | Catalog Data Ystadegol | Ymgysylltu | Gwybodaeth ac Adnoddau | Cydgrynhoi Asesiadau Unigol |
| | Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth | Dulliau Ymchwil | Dadansoddi eich Tystiolaeth | |
| **Ystyriaethau Strategol** | Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb | Y Gymraeg | Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol | Deddfwriaeth arall |
| | Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | Atal a Gwasanaethau Ataliol | Mentrau Cymdeithasol…. | |
| **Adroddiadau** | Yr hyn sydd yn yr Adroddiad | Cyhoeddi | Adolygu | Cynlluniau ar gyfer y Dyfodol (Adran 14a) |
| **Themâu** | Themâu Craidd | Grwpiau allweddol eraill (Grwpiau Nas Clywir yn Aml) | Sefydliadau Diogel | Camdriniaeth, Niwed ac Esgeulustod |

# CASGLU A DADANSODDI TYSTIOLAETH

# CATALOG DATA YSTADEGOL

Er mwyn eich helpu i amlygu'r data mwyaf perthnasol ar gyfer eich asesiad poblogaeth, rydym ni wedi darparu Catalog Data i chi. Mae'r catalog yn cynnig ystod o ddata sydd ar gael yn ymwneud ag asesiadau poblogaeth, ar yr un pryd â chydnabod y bydd anghenion yn amrywio rhwng ardaloedd.

Er mwyn adlewyrchu newidiadau mewn rheoli perfformiad a chasglu data, byddwn yn diweddaru'r catalog yn rheolaidd i ystyried unrhyw ddata newydd, perthnasol a ddaw i'r amlwg. Gallwch gael gwybod am unrhyw newidiadau trwy eich arweinydd enwebedig ar gyfer yr asesiadau poblogaeth, a thrwy wirio gwefan yr Uned Ddata:

http://www.dataunitwales.gov.uk/

Mae'r catalog wedi'i rannu'n adrannau, yn seiliedig ar y themâu craidd, ac mae hefyd yn dangos i chi ar ba lefel y mae'r data ar gael er mwyn eich helpu i fodloni'r gofyniad i ddadansoddi tystiolaeth yn ofodol.

Ceir cyflwyniad a chanllaw defnyddwyr ar ddechrau'r catalog. Mae'r catalog ei hun yn darparu dolenni uniongyrchol i'r ffynonellau data er mwyn eich helpu i gael gafael ar y data'n rhwydd.

**Chi sydd i benderfynu'n lleol pa ddata y dymunwch ei archwilio'n fanwl a'i gyflwyno yn eich asesiad. Gall hyn gynnwys tystiolaeth neu ddata lleol ychwanegol, lle y bo'n briodol. Dylech siarad â'ch cydlynydd rhanbarthol i weld a oes unrhyw benderfyniadau wedi'u gwneud ynglŷn â chymorth ychwanegol ar gyfer casglu a dadansoddi data.**

Gallwch weld fersiwn ddiweddaraf y catalog yn

http://bit.ly/1nKjnxz

# YMGYSYLLTU

Ymgysylltu ag Unigolion, Grwpiau a Sefydliadau

Ymgysylltu â Darparwyr Gwasanaeth

## YMGYSYLLTU AG UNIGOLION, GRWPIAU A SEFYDLIADAU

### Beth mae'r Cod Ymarfer yn ei ddweud?

Mae'r Cod Ymarfer yn datgan bod rhaid i ystod eang o **unigolion, grwpiau** a **sefydliadau** sy'n adlewyrchu amrywiaeth eich poblogaeth gael eu cynnwys yn yr asesiad poblogaeth. Ceir pwyslais cryf ar ymgysylltu gweithredol, arloesol, yn hytrach nag ymgynghori.

Bydd angen i chi ddangos eich bod wedi gofyn i bobl:

- beth maen nhw'n ystyried yw eu hanghenion a
- pha wasanaethau a ddylai fodloni'r anghenion hynny

Dylech hefyd nodi, er mwyn adlewyrchu elfen ataliol yr asesiad, bod rhaid i chi ymgysylltu â phobl nad ydynt yn defnyddio gwasanaethau statudol.

Yn ogystal, bydd angen i chi ddangos eich bod wedi ymgysylltu â:

- Phobl sydd â phrofiad o ddefnyddio gwasanaethau gofal a chymorth
- Gofalwyr
- Plant a phobl iau, eu rhieni a'u gofalwyr
- Grwpiau nas clywir yn aml **THEMÂU ERAILL ALLWEDDOL**

Bydd angen i chi esbonio beth wnaethoch i gasglu safbwyntiau pobl a chynnwys hyn yn eich adroddiad asesiad poblogaeth.

**GOFYNION ADRODD**

Mae'r Cod hefyd yn awgrymu sefydlu panel defnyddwyr gwasanaeth neu ddinasyddion, neu gysylltu â phaneli presennol, i ymgymryd â'r gwaith hwn.

Mae gwybodaeth am y paneli dinasyddion rhanbarthol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol ar gael yn http://gov.wales/topics/health/socialcare/partnership/?lang=en

Mae'n bosibl y byddwch eisoes wedi sefydlu paneli neu fforymau dinasyddion a fydd yn gallu cyfrannu (er enghraifft, fforymau 50+). Bydd y swyddog ymgysylltu yn eich awdurdod lleol neu Fwrdd Iechyd Lleol yn gallu rhoi manylion i chi am drefniadau lleol.

### Pwy y mae angen i chi siarad â nhw?

Fel y mae'r Cod yn datgan, disgwylir i chi ymgysylltu'n weithredol ag unigolion, grwpiau a sefydliadau. Mae'n bwysig nodi **na ddisgwylir i chi ddyblygu gwaith sydd eisoes wedi cael ei wneud.**

Fe allech ddewis cynnal ymarfer mapio syml gyda sefydliadau cymunedol i amlygu gwaith ymgysylltu sydd eisoes wedi cael ei wneud a nodi'r grwpiau presennol sydd â chysylltiadau cryf â'r gymuned.

Gellir canolbwyntio hyn ar y themâu craidd a dyletswyddau eraill y cyfeirir atynt yn y Cod. Fe allech ddymuno gwneud hyn trwy, er enghraifft, anfon cais ysgrifenedig am wybodaeth at bob grŵp a amlygwyd neu gynnal diwrnodau cynllunio ymgysylltu, gan wahodd pob sefydliad lleol i gymryd rhan.

## Pwy all eich helpu?

Byddwch eisoes wedi sefydlu cysylltiadau â'r gymuned at ddibenion adborth neu ymgynghori. Ni ddisgwylir i chi sefydlu grwpiau ymgysylltu newydd ar gyfer yr asesiad poblogaeth, yn enwedig os oes grwpiau ar gael sydd â pherthynas gref â'r sefydliad. Gallai'r rhain gynnwys grwpiau cyfranogiad tenantiaid neu grwpiau mynediad lleol.

## Cysylltiadau â'r trydydd sector

Mae pob Cyngor Gwirfoddol Cymunedol lleol yn cynnwys cydlynwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol a fydd yn gallu cydlynu gweithgarwch ymgysylltu â grwpiau cymunedol lleol. Ceir rhestr o fanylion cyswllt ar ddiwedd yr adran hon. Mae'r Cynghorau Gwirfoddol Cymunedol yn cynnwys arweinwyr enwebedig ar gyfer pob ardal Bwrdd Iechyd Lleol. Ceir swyddogion ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl ym mhob Cyngor Gwirfoddol Cymunedol hefyd.

Mae nifer o Gynghorau Gwirfoddol Cymunedol yn cynnal prosiectau Llais y Gymuned. Mae'r prosiectau hyn yn ymgysylltu â'r gymuned ynglŷn ag anghenion iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd dulliau cynnwys eisoes wedi'u sefydlu a allai fod wedi trafod ac amlygu materion, a gellir cynnwys hyn yn yr asesiad poblogaeth.

Bydd gan Gymunedau yn Gyntaf gysylltiadau cryf â chymunedau lleol hefyd, yn enwedig pobl agored i niwed a difreintiedig. Ceir rhestr o'r holl ardaloedd clwstwr a phrif gysylltiadau yn

http://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/communitiesfirst/clusters/?lang=en

Yn aml, mae gweithwyr cymorth tenantiaeth yn cynnal grwpiau cymorth lleol yn ymwneud ag anghenion iechyd a gofal cymdeithasol. Siaradwch â'ch cymdeithasau tai lleol i gael gwybod am weithwyr cymorth tenantiaeth a all eich helpu.

Mae Cartrefi Cymunedol Cymru yn cynnal rhwydwaith iechyd, tai a gofal cymdeithasol cenedlaethol hefyd

http://chcymru.org.uk/en/events/networks/network-information/health-housing-and-social-care-network

Dylech nodi hefyd fod sefydliadau a grwpiau llai yn bodoli nad ydynt wedi'u cysylltu'n agos, o bosibl, â'ch Cyngor Gwirfoddol Cymunedol lleol neu sefydliadau eraill mwy o faint. Mae'n bwysig eich bod chi'n siarad â  chynifer o sefydliadau cymunedol â phosibl fel y gallant eich helpu i amlygu'r gweithgarwch mwy anffurfiol sy'n digwydd yn eich ardal, er enghraifft clybiau cinio a grwpiau cymorth lleol.

## Dulliau ymgysylltu

Wrth ddatblygu eich deunyddiau ymgysylltu neu gyfranogi, mae nifer o ymagweddau ar gael i chi ddewis o'u plith. Ceir rhagor o wybodaeth am sut i wneud hyn yn ein hadran **DULLIAU YMCHWIL**. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am

- Arolygon a holiaduron
- Grwpiau ffocws
- Digwyddiadau ymgysylltu
- Cyfweliadau un ac un

### Sut dylech chi dargedu eich gwaith ymgysylltu?

Awgrymir isod restr o grwpiau i siarad â nhw. Fe allech ddymuno amlygu arweinydd cyswllt yn y gymuned ar gyfer pob grŵp. Mae rhagor o wybodaeth am lwybrau ymgysylltu wedi'i chynnwys o dan bob pennawd yn adran Themâu y pecyn cymorth hwn. **THEMÂU CRAIDD**

- plant a phobl ifanc, gan gynnwys rhieni a gofalwyr
- pobl hŷn
- iechyd / anableddau corfforol
- anabledd dysgu/awtistiaeth
- iechyd meddwl
- nam ar y synhwyrau
- gofalwyr y mae arnynt angen cymorth
- trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol

Grwpiau eraill i'w cynnwys

- Troseddwyr, cyn-droseddwyr a'u teuluoedd (gan gynnwys oedolion a phobl iau) (sylwer bod dyletswyddau penodol yn ymwneud â sefydliadau diogel)
- Pobl ddigartref
- Y gymuned pobl lesbiaidd, hoyw, ddeurywiol a thrawsrywiol
- Grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig
- Cyn-filwyr
- Ceiswyr lloches a ffoaduriaid
- Sipsiwn a Theithwyr

### Adrodd ar eich Gweithgarwch Ymgysylltu

Mae'r Cod Ymarfer yn datgan bod angen i chi gynnwys yn Adran 1 **sut** rydych chi wedi ymgysylltu â phobl wrth gynhyrchu'r adroddiad. Awgrymir isod grynodeb o'r hyn y bydd angen i chi ei gynnwys yn yr adroddiad:

- Eich methodoleg, gan gynnwys enghreifftiau o unrhyw ymagweddau arloesol a ddefnyddiwyd gennych
- Rhestr o'r grwpiau a'r sefydliadau a fu'n rhan o'r gwaith
- Nifer y bobl y siaradoch chi â nhw, yn ddefnyddwyr gwasanaeth a phobl nad ydynt yn ddefnyddwyr gwasanaeth
- Yr hyn y gofynnoch chi i bobl
- Y prif negeseuon a gododd o'r gweithgarwch ymgysylltu
- Sut mae'r wybodaeth wedi cael ei hadlewyrchu yn adran asesu'r adroddiad

Mae pecyn cymorth ar gyfer ymgysylltu, gan gynnwys enghraifft o gynllun ymgysylltu, ar gael yng nghyfeirlyfr Cyfranogaeth Cymru

http://www.participationcymru.org.uk/national-principles/practitioners-manual-for-public-engagement

## Cyngor ar ymgysylltu

### Gwnewch yn siwr eich bod yn deall beth rydych chi'n ei ofyn a pham

Bydd angen i chi sicrhau bod unrhyw gwestiynau rydych chi'n eu gofyn wedi'u llunio i lywio'r asesiad poblogaeth yn benodol. Gan fod hyn yn ymwneud ag anghenion gofal a chymorth yr unigolyn, ni ddylid canolbwyntio ar ofyn ynghylch anghenion y gymuned ehangach ond, yn hytrach, yr hyn sydd ei angen ar yr unigolyn o ran gofal a chymorth a'r hyn y mae'n credu a allai atal yr anghenion hynny rhag gwaethygu. Gallwch ddefnyddio hyn hefyd fel cyfle i gasglu syniadau ar gyfer mentrau a arweinir gan ddefnyddwyr, mentrau cymdeithasol a chwmnïau cydweithredol yn y dyfodol.

### Rheolwch ddisgwyliadau

Gallai gofyn am farn pobl ar ba wasanaethau yr hoffent eu gweld arwain at ddisgwyliadau afrealistig y bydd pob gwasanaeth yn cael eu darparu. Fe allech ddymuno gofyn ynghylch anghenion yn gyntaf i helpu i lywio trafodaethau ar y math o wasanaethau yr hoffai pobl eu gweld. Bydd cwestiynau strwythuredig yn helpu i reoli hyn, er enghraifft gofyn i bobl ba wasanaethau maen nhw'n eu defnyddio nawr, pa mor effeithiol ydynt a beth yr hoffent ei weld yn newid.

### Gwnewch yn siwr fod unrhyw ddigwyddiadau neu ddeunyddiau ymgysylltu'n ystyrlon, yn hygyrch ac yn rhwydd eu deall

Gwnewch yn siwr eich bod chi'n cynhyrchu deunyddiau eglur, hygyrch i esbonio diben yr ymgysylltu a sut y byddwch yn defnyddio safbwyntiau pobl, gan gynnwys sut y gallant gael y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd yr asesiad poblogaeth. Ceir cyngor ar hyn wrth ochr pob un o'r **THEMÂU CRAIDD**.

### Defnyddiwch y rhwydweithiau sydd eisoes yn bodoli yn eich ardal

Bydd gan bob ardal rwydweithiau a sefydliadau presennol sydd â pherthynas gref â'r grwpiau penodol o bobl ag anghenion gofal a chymorth. Bydd y rhan fwyaf yn cael eu cynrychioli trwy Gynghorau Gwirfoddol Cymunedol neu eich sefydliad eich hun. Gallwch amlygu grwpiau bach lleol trwy siarad â chysylltiadau Cymunedau yn Gyntaf.

### Ystyriwch unrhyw weithgarwch arall

Mae'n debygol y byddwch yn cynnal gweithgarwch ymgysylltu ar eich asesiad llesiant lleol ar yr un pryd â'ch asesiad poblogaeth. Bydd angen i chi ystyried a fyddwch chi'n siarad â'r un bobl ar gyfer y ddau ymarfer a sicrhau nad ydynt yn drysu ynghylch yr hyn rydych chi'n ei ofyn a pham, er enghraifft o ran Asesiadau Llesiant Lleol.

## Cymorth ychwanegol

Rydym ni wedi datblygu adnodd ymgysylltu ar-lein sy'n cynnwys gwybodaeth am dechnegau cyfranogi ac offer cynllunio syml a ddatblygwyd gan Cyfranogaeth Cymru.

http://www.ssiacymru.org.uk/home.php?page_id=8919

- Y Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc

Bydd angen i chi ystyried y safonau cenedlaethol ar gyfer cyfranogiad plant a phobl ifanc wrth gynllunio unrhyw weithgarwch ymgysylltu â nhw. Mae'r safonau ar gael yn

http://www.youngwales.wales/index.php/young-wales-cafe/resources

## YMGYSYLLTU Â DARPARWYR GWASANAETH

### Beth mae'r Cod Ymarfer yn ei ddweud?

Mae'n rhaid i ran gyntaf adroddiad asesiad poblogaeth amlinellu sut rydych wedi ymgysylltu â darparwyr gwasanaeth wrth ei gynhyrchu.

### Pwy y mae angen i chi siarad â nhw?

Yn rhan o'ch ymgysylltiad ehangach â'r gymuned, bydd angen i chi ofyn am safbwyntiau darparwyr gwasanaeth hefyd. Yn yr adran 'ymgysylltu ag unigolion, grwpiau a chymunedau', byddwch wedi amlygu llawer o ddarparwyr lleol yn y trydydd sector.

Fodd bynnag, bydd angen i chi siarad ag unrhyw ddarparwyr gwasanaeth annibynnol yn rhan o'r ymarfer hwn. Byddai rhestr awgrymedig yn cynnwys:

- Darparwyr gofal cartref yn yr ardal
- Darparwyr gofal preswyl yn yr ardal
- Darparwyr llety gwarchod
- Darparwyr llety diogel
- Gwasanaethau mabwysiadu a maethu
- Gwasanaethau eiriolaeth annibynnol

Os nad ydych chi eisoes wedi cynnig y cyfle, fe allech ddymuno gofyn i staff yn yr awdurdod lleol a'r Bwrdd Iechyd Lleol sy'n darparu gwasanaethau gofal a chymorth am eu safbwyntiau unigol.

### Sut gallwch wneud hyn?

Os ydych chi wedi sefydlu gweithgorau neu gyfarfodydd rheolaidd â darparwyr gwasanaeth, er enghraifft darparwyr gofal annibynnol, gallwch ddefnyddio'r rhain i drafod unrhyw faterion maen nhw wedi'u nodi yn ymwneud â gofal a chymorth. Fe allech ddymuno trefnu digwyddiad ymgysylltu i ofyn i ddarparwyr am eu hadborth.

Wrth symud ymlaen, fe allech sefydlu dull i gael adborth rheolaidd gan unrhyw ddarparwyr gofal a chymorth a ariennir. Gallai hyn fod mor syml â chynnwys gofyniad mewn cytundebau lefel gwasanaeth neu adroddiadau grant iddynt ddarparu sylwebaeth fer ar faterion sy'n wynebu'r bobl sy'n defnyddio eu gwasanaethau. Gall y wybodaeth hon gael ei defnyddio ar gyfer yr adolygiad o'r asesiad ac ar gyfer adroddiadau asesiad poblogaeth yn y dyfodol.

O ran staff yn yr awdurdod neu'r bwrdd iechyd sy'n darparu gwasanaeth, fe allech ddosbarthu arolwg syml trwy reolwyr gweithredol. Gallai hwn gael ei roi i ddarparwyr ehangach. Bydd hyn yn cynnig y cyfle i unrhyw staff neu ddarparwyr nad ydynt eisiau rhoi eu henw aros yn anhysbys. **DULLIAU YMCHWIL**

### Beth ddylwn i ei ofyn?

Dyma rai awgrymiadau ar gyfer cwestiynau i fynd i'r afael â nhw:

- Beth ydych chi'n credu yw'r anghenion gofal a chymorth yn eich gwasanaeth?
- Sut mae hyn yn adlewyrchu'r themâu craidd?
- A ydych chi'n ymwybodol o unrhyw anghenion nad ydynt yn cael eu bodloni?
- Pam ydych chi'n credu nad yw'r anghenion hynny'n cael eu bodloni?
- Beth ddylai'r sector roi blaenoriaeth iddo yn ystod y 5 mlynedd nesaf?

Bydd yr asesiad poblogaeth hefyd yn bwydo i'r Adroddiadau ar Sefydlogrwydd y Farchnad Leol (o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru)). Yn ogystal ag amlygu'r hyn sy'n gweithio'n dda neu'r hyn nad yw'n gweithio'n dda i'r bobl maen nhw'n eu cynorthwyo, fe allech ddymuno cynnwys yn eich adroddiad unrhyw bwysau ar y sector a amlygwyd gan ddarparwyr gwasanaeth. Sylwer, diben yr asesiad poblogaeth yw *llywio* Adroddiadau ar Sefydlogrwydd y Farchnad Leol, nid fod yr unig sail iddynt.

**DEDDFWRIAETH ARALL**

**RHESTR WIRIO YMGYSYLLTU**

Rydw i wedi dilyn

- [ ] Cam 1 - Diffinio amcan yr Asesiad Poblogaeth
- [ ] Cam 2 - Amlygu'r cyfranogwyr tebygol yn yr astudiaeth
- [ ] Cam 3 - Amlygu sail resymegol neu ddiben yr Asesiad
- [ ] Cam 4 - Amlygu'r wybodaeth sydd i'w chasglu.
- [ ] Cam 5 - Dewis y dulliau ar gyfer casglu'r wybodaeth.
- [ ] Cam 6 - Datblygu offer casglu data.
- [ ] Cam 7 - Dewis y sampl, maint y sampl a'r weithdrefn samplu
- [ ] Cam 8 - Datblygu amserlen
- [ ] Cam 9 - Cynnal yr asesiad
- [ ] Cam 10 - Dadansoddi a chrynhoi'r canlyniadau
- [ ] Cam 11 - Cyflwyno'r wybodaeth

# GWYBODAETH AC ADNODDAU

Mae'r adran hon yn cynnwys dolenni i lyfrgelloedd, ystorfeydd a hybiau chwiliadwy. Bydd y rhain yn cynnwys papurau ymchwil, ymarfer seiliedig ar dystiolaeth ac enghreifftiau o arfer da a fydd yn gallu llywio'r broses o gasglu a dadansoddi tystiolaeth ar gyfer eich asesiad poblogaeth.

## Arfer Da Cymru

Gwella gwasanaethau yw nod pob sefydliad sector cyhoeddus, ac felly mae coladu a rhannu arfer da, a dysgu ohono, wedi dod yn flaenoriaeth i lawer o sefydliadau. Er bod sefydliadau'n rhannu arfer da yn fewnol, mae'n aml yn anodd cael gafael ar enghreifftiau o arfer da gan sefydliadau eraill– mae hyn yn gyfle a gollwyd pan fo cymaint y gallwn ei ddysgu gan ein gilydd.

Porthol ar-lein unigol i arfer da a gwybodaeth yw Arfer Da Cymru a ddatblygir ac a reolir gan ei bartneriaid Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

http://www.goodpractice.wales

## Cyfnewidfa Arfer Da

Mae gan Gyfnewidfa Arfer Da Swyddfa Archwilio Cymru astudiaethau achos ac enghreifftiau o wasanaethau a all fod yn ddefnyddiol i'ch asesiad.

http://www.wao.gov.uk/good-practice

## Gwasanaeth Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru

Mae hwn yn darparu trosolwg o weithgareddau cyfredol holl adnoddau dadansoddol canolog Llywodraeth Cymru.

http://gov.wales/statistics-and-research/about/user-engagement/plans-practices/knowledge-analytical-services-evidence-plan/?lang=en

## Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru

Mae adroddiadau ac ystadegau defnyddiol ar gael ar wefan AGGCC

http://cssiw.org.uk/our-reports/?lang=en

## DEWIS

Gwefan wybodaeth a chyfeirlyfr adnoddau pob sector yw Dewis Cymru sy'n ceisio darparu gwybodaeth am sut y gall pobl gynnal neu wella eu llesiant, ac am sefydliadau sy'n gallu eu helpu. Mae Dewis Cymru yn hyrwyddo llesiant pobl trwy ei gwneud hi'n haws iddynt gael gafael ar wybodaeth, cyngor a chymorth sy'n berthnasol i'w hamgylchiadau a'u hanghenion unigol.

Mae Dewis yn darparu gwybodaeth am grwpiau/gwasanaethau lleol, yn y sector statudol a gwirfoddol, mewn un man. Fodd bynnag, bydd gwybodaeth ar gael i raddau gwahanol ym mhob ardal. Bydd angen i chi wirio beth yw'ch trefniadau lleol.

Ar hyn o bryd, mae'r adnodd ar waith ar gyfer Gogledd Cymru ac yn cael ei weithredu yng Nghwm Taf, Caerdydd a'r Fro a Gwent, ond bydd ardaloedd eraill ledled Cymru yn cael eu cynnwys yn rhan o'r datblygiad ehangach drwy gydol 2016.

### Cyngor: Adroddiadau Dewis

Mae'r ffordd y mae Dewis yn storio gwybodaeth am adnoddau yn golygu y gallai gynhyrchu adroddiadau ar ystod a lefel y gwasanaethau ar gyfer ardal, a rhoi adroddiad i chi ar y termau y chwiliwyd amdanynt amlaf. Gallech ddefnyddio hyn i'ch helpu i amlygu anghenion ehangach heb eu bodloni (gweler ein hadran Dadansoddi eich Tystiolaeth). Mae SSIA a'r Uned Ddata yn bwriadu datblygu ymarferoldeb newydd yn 2016/17 i'ch galluogi i gael gafael ar y wybodaeth hon i helpu gyda'ch asesiad poblogaeth, yn amodol ar gymeradwyo grant a chynllun gwaith SSIA ar gyfer 2016/17.

Sylwer na fydd yr holl wybodaeth y bydd arnoch ei hangen ar gael ar Dewis gan ei fod yn dibynnu ar yr hyn y mae eich awdurdod lleol neu fwrdd iechyd wedi dewis ei rannu yno, a lefel gyffredinol yr adnoddau a ddelir ar gyfer eich ardal. Bydd angen i chi edrych ar adnoddau eraill, fel eich cyfeirlyfrau gwasanaeth lleol a data gwasanaeth a ddelir yn lleol, i gael darlun llawnach o ystod a lefel y gwasanaethau sydd ar gael.

Ar gyfer adroddiadau ar ddefnydd lleol a dadansoddeg, bydd Dewis yn gallu dangos nifer y bobl sy'n chwilio am air neu derm penodol (h.y. dementia) mewn ardal benodedig. Bydd hyn ar gael i awdurdodau lleol sy'n defnyddio Dewis yn ystod 2016-17.

http://www.dewis.wales/

### Unedau Ymchwil

Mae nifer o unedau ymchwil ledled Cymru y gallwch gysylltu â nhw ynglŷn â'u gwaith ymchwil diweddaraf. Rhoddir rhestr isod gyda gwefannau a manylion cyswllt.

### Prifysgol Bangor

Y Ganolfan Iechyd Meddwl a Chymdeithas

http://www.cfmhas.org.uk/

Cydweithredu Academaidd Cymru Gyfan ar gyfer Ymchwil Gofal Cymdeithasol http://www.ascccymru.org/

Rhif ffôn: 01248 382238

### Prifysgol Caerdydd

WISERD

http://www.wiserd.ac.uk/

Rhif ffôn: 02920 879338

CASCADE

Canolfan Ymchwil Gofal Cymdeithasol Plant Prifysgol Caerdydd

Rhif ffôn: 029 2087 5402

http://sites.cardiff.ac.uk/cascade/

Mae'n cynnwys tudalen cyhoeddiadau, tudalen sydd â gwybodaeth hygyrch am brosiectau CASCADE yn ogystal â rhestr o erthyglau cyfnodolion academaidd.

Troseddeg

Prosiect DASH (DA)

Rhif ffôn: 029 2087 5401

Troseddu Rhywiol

Rhif ffôn: 02920 874773

**Prifysgol Abertawe**

Y Ganolfan Heneiddio Arloesol

(01792) 602341

http://www.swansea.ac.uk/cia/

**Prifysgol De Cymru**

Nyrsio anabledd dysgu

(01443) 483177

http://staff.southwales.ac.uk/users/862-rnorthwa#research

**Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru (NISCHR gynt)**

Y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl (NCMH)

Rhif ffôn: 02920 688327

http://ncmh.info/

Y Ganolfan Ymchwil Heneiddio a Dementia

http://www.healthandcareresearch.gov.wales/centre-for-ageing-and-dementia-research/

Canolfan Cymru ar gyfer Ymchwil Gofal Sylfaenol a Gofal Brys (PRIME)

Rhif ffôn: 02920 687186

www.primecentre.wales

Y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Ymchwil ar Iechyd a Llesiant y Boblogaeth

Rhif ffôn: 01792 513484

http://www.healthandcareresearch.gov.wales/national-centre-for-population-health-and-wellbeing-research/

Canolfan Ymchwil Canser Cymru

02920 745452

www.walescancerresearchcentre.com

**ORCA**

Gallwch chwilio am ymchwil berthnasol ar ystorfa sefydliadol Prifysgol Caerdydd http://orca.cf.ac.uk; defnyddiwch y swyddogaeth 'chwilio manwl'.

Os cewch unrhyw broblemau neu os bydd angen unrhyw gymorth arnoch wrth ddefnyddio'ch cyfeirlyfr, cysylltwch â nhw'n uniongyrchol ar ORCA@Cardiff.ac.uk neu drwy ffonio 02920 876123.

# CYDGRYNHOI ASESIADAU UNIGOL

Ymarferion strategol yw asesiadau poblogaeth, ac er mwyn cael dealltwriaeth strategol mae'n bosibl y bydd angen i chi ystyried rhywfaint o wybodaeth bersonol. Gellir cael y wybodaeth hon trwy asesu anghenion gofal a chymorth pobl, neu anghenion cymorth gofalwyr, yn unigol. Bydd gwybodaeth a gesglir wrth gynnal asesiad UNIGOL, yn ogystal â chynlluniau gofal a chymorth unigol, a chynlluniau cymorth gofalwyr, yn darparu ffynhonnell gwybodaeth am batrymau angen.

Yn ogystal, bydd cynlluniau gofal a chymorth unigol, a chynlluniau cymorth gofalwyr, yn darparu ffynhonnell gwybodaeth am batrymau canlyniadau llesiant, a pha un a yw'r rhain yn cael eu cyflawni, a sut.

Wrth gydgynhyrchu cynllun gofal a chymorth (neu gynllun cymorth ar gyfer gofalwyr), rhaid i awdurdodau lleol weithio gyda phobl i amlygu'r canlyniadau llesiant personol y mae unigolyn yn dymuno eu cyflawni. Mae'r cod ymarfer ar gyfer Rhan 4 y Ddeddf (Bodloni Anghenion) yn mynnu bod cynllun gofal a chymorth hefyd yn mesur y cynnydd tuag at gynnal a chyflawni eu canlyniadau personol.

Bydd cydgrynhoi cynnydd pobl tuag at eu canlyniadau llesiant personol yn darparu gwybodaeth y gellir ei defnyddio'n lleol i lywio eich asesiad poblogaeth. Er enghraifft, trwy amlygu'r ffyrdd y mae anghenion yn cael eu bodloni trwy ddefnyddio mentrau cymdeithasol, cwmnïau cydweithredol, sefydliadau a arweinir gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector, neu drwy amlygu ystod a lefel gwasanaethau ataliol. Bydd hyn hefyd yn darparu dealltwriaeth o'r ffyrdd nad yw anghenion yn cael eu bodloni.

Yn yr un modd, byd gwybodaeth reoli a gesglir gan y Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth am y gwahanol fathau o ymholiadau gofal a chymorth yr ymdrinnir â nhw, yn darparu tystiolaeth y gallwch ei defnyddio hefyd.

**GWYBODAETH, CYNGOR A CHYMORTH**

Byddwch eisiau gwneud gwybodaeth bersonol yn ddienw, ac mae'r Cod Ymarfer Rheoli Risg Diogelu Data Dienw a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn esbonio'r materion sy'n gysylltiedig â gwneud data personol yn ddienw, a datgelu data pan fydd yn ddienw. Mae'r cod yn disgrifio'r camau y gall sefydliad eu cymryd i sicrhau bod data'n cael ei wneud yn ddienw yn effeithiol, ar yr un pryd â chynnal ei ddefnyddioldeb. Ceir dolen isod i'r Cod Ymarfer hwn

http://ico.org.uk/for_organisations/data_protection/topic_guides/anonymisation

Nid ffenomen newydd yw cydgrynhoi asesiadau unigol i ddeall patrymau anghenion gan fod y broses o gynllunio gwasanaethau bob amser wedi bod yn seiliedig ar ddeall pa anghenion sy'n cael eu cyflwyno a sut y dylent gael eu bodloni. Fodd bynnag, gellid dadlau bod y broses asesiad poblogaeth a'r Ddeddf newydd yn gyffredinol yn mynnu ymagwedd fwy systematig at gydgrynhoi a dadansoddi asesiadau, a bydd angen i chi sefydlu modd o gyflawni'r ymagwedd hon.

## Cyngor

- Gwnewch yn siwr fod gennych chi system sy’n eich galluogi i storio data mewn ffordd sy’n golygu y gellir ei gydgrynhoi
- Pan fyddwch chi’n sefydlu eich gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth, gwnewch yn siwr ei fod yn gallu cynhyrchu’r data sy’n ofynnol
- Dylech gynnwys cydweithwyr corfforaethol wrth ddatblygu eich system
- Rhowch wybod i staff rheng flaen am yr angen i gydgrynhoi asesiadau, fel y gallant ddwyn materion penodol i’ch sylw

# GWASANAETH GWYBODAETH, CYNGOR A CHYMORTH

Bydd y gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth yn seiliedig ar dystiolaeth, gan ddatblygu ei ystod a'i ganolbwynt ar sail canfyddiadau'r asesiad poblogaeth, trwy'r trefniadau partneriaeth rhanbarthol. Yn yr un modd, bydd y broses asesiad poblogaeth yn defnyddio'r gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth i ddeall pa anghenion a gyflwynir gan bobl leol, a pha wybodaeth, cyngor a chymorth a geisiant.

Yr enghraifft amlycaf o gyd-ddibyniaeth yr asesiad poblogaeth a'r gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth yw eu pwyslais cyffredin ar atal. Bydd y gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth yn rhoi gwybodaeth a chyngor i bobl sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan eu cyfeirio at wasanaethau ataliol a llesiant priodol yn y gymuned, a darparu cymorth, lle y bo'n briodol, i alluogi pobl i helpu eu hunain a phobl eraill yn well. Dylid meddwl amdano fel gwasanaeth ataliol, yn cynnig ymyrraeth gynnar trwy wybodaeth, cyngor a chymorth o ansawdd da. Fodd bynnag, rhaid iddo hefyd weithredu fel cyswllt canolog â gwasanaethau ataliol sydd ar gael yn y gymuned a hyrwyddo'r cyfle i ddefnyddio'r gwasanaethau hyn. Bydd y rhain yn amrywio o wasanaethau cyffredinol i gymorth mwy penodol.

Bydd y gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth yn eich galluogi i gasglu data a gwybodaeth amhrisiadwy am natur ymholiadau ac ymatebion, a manylion am y math o wybodaeth a chyngor a gynigir. Bydd hyn o gymorth mawr i'ch asesiad poblogaeth. Bydd staff sy'n gweithio yn y gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth yn cynnal asesiadau unigol gan ddefnyddio'r Offeryn Asesu a Chymhwysedd Cenedlaethol. Bydd hyn yn darparu gwybodaeth ychwanegol ddefnyddiol.

## CYDGRYNHOI ASESIADAU UNIGOL

Mae'n rhaid i chi hefyd ddefnyddio gwybodaeth a gasglwyd trwy'r asesiad anghenion poblogaeth i gynllunio a datblygu'r gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth, a'i wella'n barhaus. Bydd hyn yn sicrhau bod y gwasanaeth wedi'i gynllunio'n briodol ac yn hygyrch i wahanol grwpiau cleientiaid yn yr ardal, ac yn ystyried pa agweddau ar y gwasanaeth a ddarperir orau ar lefel genedlaethol, ranbarthol neu leol.

### Cyngor

- Gwnewch yn siwr fod gennych chi system sy'n eich galluogi i storio data mewn ffordd sy'n golygu y gellir ei gydgrynhoi
- Pan fyddwch chi'n sefydlu eich gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth, gwnewch yn siwr ei fod yn gallu cynhyrchu'r data sy'n ofynnol
- Dylech gynnwys cydweithwyr corfforaethol wrth ddatblygu eich system
- Rhowch wybod i staff rheng flaen am yr angen i gydgrynhoi asesiadau, fel y gallant ddwyn materion penodol i'ch sylw

# DULLIAU YMCHWIL

Mae methodoleg ymchwil yn bwnc academaidd ynddo'i hun ac nid yw'r pecyn cymorth hwn yn gwneud unrhyw ymgais i ddarparu cyfarwyddyd manwl na chyflwyno unrhyw sail ddamcaniaethol ar gyfer y dulliau y dylech eu dewis i gasglu data a gwybodaeth i lywio eich asesiad poblogaeth. Yn lle hynny, yn yr adran hon, cewch y **cyflwyniad mwyaf sylfaenol i ddulliau ymchwil** er mwyn rhoi fframwaith i chi ar gyfer meddwl am ba ddulliau i'w mabwysiadu a rhai dolenni i ddeunydd a llenyddiaeth i ddatblygu eich syniadau ymhellach. **Fe'ch cynghorir yn gryf i gael cyngor cymwysedig ar gynllunio a gweinyddu eich dulliau ymchwil.** Bydd y data a gesglir gennych yng nghyd-destun eich asesiad poblogaeth yn canolbwyntio ar ystod a lefel y gwasanaethau ac nid perfformiad gwasanaethau fel y cyfryw.

Dylech hefyd nodi bod y cod ymarfer mewn perthynas â mesur perfformiad gwasanaethau cymdeithasol yn gosod gofynion ar awdurdodau lleol o ran mesurau ansoddol a meintiol. Mae hyn yn cynnwys canllawiau ar gasglu data boddhad. Bydd angen i chi ystyried unrhyw gyngor ar ymagweddau at gasglu data yn rhan o'r fframwaith rheoli perfformiad ochr yn ochr â'r adran hon o'r pecyn cymorth.

http://gov.wales/topics/health/socialcare/well-being/performance/?lang=en

**FFRAMWAITH CANLYNIADAU CENEDLAETHOL**

Disgwylir i chi ddadansoddi'r data i'w gyflwyno yn eich adroddiad yn unol â'r **THEMÂU CRAIDD** a hefyd yn ôl grŵp oedran ac yn ofodol, e.e. yn ôl Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Lleol neu wardiau etholiadol

Wrth ystyried eich ymagwedd at gasglu data a gwybodaeth, felly, byddai'n synhwyrol i chi ystyried mabwysiadu'r themâu hyn o'r dechrau fel fframwaith. Bydd hyn yn sicrhau na fydd rhaid i chi ailedrych ar ffynonellau data i gael gwybodaeth fanylach yn ddiweddarach. Er enghraifft, bydd angen i chi benderfynu p'un ai casglu a dadansoddi data am nifer y bobl ag anabledd dysgu ar lefel awdurdod lleol neu is-awdurdod, ac felly bydd angen i chi fod yn eglur ynghylch beth yw'r lefel. Yn yr un modd, bydd angen i chi bennu'r ffordd fwyaf priodol o is-rannu grwpiau oedran. Bydd y penderfyniadau hyn yn dibynnu ar eich profiad o gynllunio gwasanaethau a pha ddata sydd ar gael ar wahanol lefelau.

## Ymchwil Ansoddol a Meintiol

Bydd angen i chi ddefnyddio data ansoddol a meintiol. Fodd bynnag, oherwydd bod y Cod Ymarfer yn annog ymgysylltu i gasglu gwybodaeth, bydd gennych bwyslais cryf ar ymagwedd ansoddol. Ceir sawl diffiniad o'r dulliau hyn ac mae llenyddiaeth academaidd yn cynnwys dadansoddiadau dwfn o'u cryfderau a'u gwendidau, ond er mwyn y pecyn cymorth hwn, gwahaniaethir rhwng y ddau gan awgrym syml bod ymchwil feintiol yn cyfeirio at y technegau casglu a dadansoddi data hynny sy'n dibynnu ar ddata rhifiadol a bod ymchwil ansoddol yn cyfeirio at y rhai hynny sy'n ymwneud â data nad yw'n rhifiadol.

## Dulliau Casglu Data

Bydd angen i chi benderfynu pa ddulliau casglu data y bwriadwch eu defnyddio. Mae'r adran hon yn rhoi disgrifiadau byr o'r prif ddulliau sydd ar gael i chi.

### Arolygon

Gall y rhain fod yn **drawstoriadol** lle y byddwch yn casglu data uniongyrchol o sampl o bobl ar adeg benodol er mwyn disgrifio a dadansoddi nodweddion y boblogaeth gyffredinol; neu'n **arhydol** lle y byddwch yn casglu data ar wahanol adegau er mwyn amlygu newidiadau. Y prif fathau o arolygon arhydol yw **astudiaethau tueddiadau** lle y byddwch yn astudio samplau i gynrychioli'r boblogaeth gyffredinol; **astudiaethau carfan** lle y byddwch yn canolbwyntio ar ran benodol o'r boblogaeth dros amser ond gan ddefnyddio samplau gwahanol; ac **astudiaethau panel** lle y byddwch yn casglu data o'r un sampl o bobl.

### Samplu

Bydd angen i chi ddefnyddio samplu er mwyn arbed amser a chostau oherwydd go brin y gallwch gasglu a dadansoddi data o'r boblogaeth gyfan. Ceir dau brif fath o samplu - samplu **tebygolrwydd neu gynrychioliadol**, a samplu **annhebygolrwydd neu ddyfarnol**.

Mae samplu **tebygolrwydd neu gynrychioliadol** yn helpu i amcangyfrif nodweddion y boblogaeth o'r sampl yn ystadegol. O ran samplu **annhebygolrwydd neu ddyfarnol**, mae'n bosibl y gallwch gyffredinoli am y boblogaeth o hyd, ond nid ar sail ystadegol. Mae'r pecyn cymorth hwn yn canolbwyntio ar samplu tebygolrwydd fel y dull yr ydych yn fwyaf tebygol o'i ddefnyddio.

### Samplu tebygolrwydd

Gellir rhannu'r broses hon yn bedwar cam:

1. Amlygwch ffrâm samplu addas yn seiliedig ar eich amcan ymchwil. Gallai hyn fod y boblogaeth gyfan yn eich ardal, neu is -set fel pobl hŷn, neu blant iau na 18 oed. Bydd angen i chi sicrhau bod eich ffrâm samplu'n gyflawn, yn gywir ac mor gyfredol â phosibl.
2. Penderfynwch ar faint sampl addas. Po fwyaf yw maint y sampl, y lleiaf tebygol yw gwallau wrth gyffredinoli i'r boblogaeth, ond bydd angen i chi gyfaddawdu, gan ystyried amser ac arian a faint o wallau rydych chi'n fodlon eu goddef.
3. Dewiswch y dechneg samplu fwyaf priodol a dewiswch y sampl. Fe allech ddewis sampl ar hap neu ddewis pobl yn systematig o'ch ffrâm samplu. Fe allech hefyd drefnu eich samplau'n haenau neu eu clystyru trwy rannu eich poblogaeth yn grwpiau arwahanol.
4. Gwiriwch fod y sampl yn gynrychioliadol o'r boblogaeth. Gallwch ddefnyddio data fel data cyfrifiad i gymharu eich sampl â'r boblogaeth gyffredinol.

### Defnyddio data eilaidd

Byddwch yn sicr yn dibynnu'n drwm ar ddata eilaidd hefyd, h.y. data sydd eisoes wedi'i gasglu at ryw ddiben arall ar gyfer eich asesiad poblogaeth. Mae Catalog Data wedi'i gynhyrchu i'ch helpu gyda hyn, o ran llawer o'r data meintiol y bydd arnoch ei angen, ac fe'i hesbonnir mewn man arall yn y pecyn cymorth hwn.

CATALOG DATA YSTADEGOL

### Cyfweliadau

Mae cyfweliadau'n amrywio o sefyllfaoedd ffurfiol a strwythuredig iawn, gan ddefnyddio cwestiynau safonedig, i sgyrsiau anffurfiol ac anstrwythuredig. Gellir eu cynnal ar sail un ac un, mewn grwpiau, wyneb yn wyneb, ar y ffôn, neu'n electronig trwy gyfryngau fel y Rhyngrwyd. Wrth bennu pa ddulliau i'w defnyddio, bydd angen i chi ystyried y rhesymau dros y cyfweliad, arwyddocâd sefydlu cysylltiad personol, natur y cwestiynau sydd i'w gofyn a'r costau a'r amser sydd ar gael. Mae paratoi'n dda yn hanfodol ar gyfer cyfweliadau effeithiol, gan gynnwys materion logistaidd fel lleoliad a mynediad. Mae angen i gyfwelwyr fod yn gymwys, yn wybodus ac, yn ddelfrydol, wedi'u hyfforddi i osgoi rhagfarn. Gall cwestiynau fod yn agored neu'n gaeëdig, yn dibynnu ar yr hyn sydd ei angen, a gellir cofnodi cyfweliadau trwy ddefnyddio nodiadau neu ddyfeisiau sain. Yr egwyddor bwysig i'w dilyn yw bod y diben, y fformat a'r "rheolau ymgysylltu" yn dryloyw.

### Cyfweliadau strwythuredig

Mae'r rhain yn defnyddio holiaduron wedi'u seilio ar set o gwestiynau safonedig a bennwyd o flaen llaw, sy'n mynnu bod y cyfwelydd yn cadw at y sgript. Maen nhw'n ddefnyddiol i gasglu data mesuradwy.

### Cyfweliadau lled-strwythuredig

Mae'r rhain yn ansafonedig a chyfeirir atynt weithiau fel cyfweliadau ymchwil ansoddol. Yma, bydd gan y cyfwelydd restr o themâu a chwestiynau, ond bydd yn eu hamrywio yn ôl y sawl sy'n cael ei gyfweld neu lif y sgwrs.

### Cyfweliadau manwl anstrwythuredig

Mae'r rhain yn anfurfiol ac yn cael eu defnyddio i archwilio materion yn fanylach. Nid oes set o gwestiynau a bennwyd o flaen llaw a rhoddir y cyfle i'r sawl sy'n cael ei gyfweld siarad yn rhydd am ddigwyddiadau, ymddygiadau a chredoau mewn perthynas â'r maes pwnc.

### Cyfweliadau grŵp

Cyfeirir at y rhain weithiau fel grwpiau ffocws, lle mae'r pwnc yn cael ei ddiffinio'n glir ac yn fanwl a cheir pwyslais ar alluogi trafodaeth ryngweithiol ymhlith y cyfranogwyr. Mae cyfweliadau grŵp a grwpiau ffocws yn cyflawni nifer o ddibenion. Yn ogystal â darparu cyfle i gasglu gwybodaeth uniongyrchol a allai fod wedi'i cholli trwy ddulliau eraill, gall grwpiau gynnig safbwyntiau ychwanegol a darparu cyfrwng i ymgysylltu ar y cyd â'r rhai hynny nad ydynt yn cael eu harolygu'n uniongyrchol fel arall. Gall y cyfranogwyr ysgogi eu meddyliau ei gilydd a gall y sawl sy'n cynnal y cyfweliad grŵp benderfynu i ba raddau y mae'n cyfranogi yn y drafodaeth.

Mae'n rhaid bod yn ofalus i sicrhau nad yw personoliaethau cryf yn dylanwadu'n amhriodol ar gyfeiriad y cyfweliad ac ymatebion cyfranogwyr llai penderfynol.

### Holiaduron

Term cyffredinol yw "holiaduron" i gynnwys yr holl dechnegau casglu data sy'n gofyn i bob unigolyn ymateb i'r un set o gwestiynau mewn trefn a bennwyd o flaen llaw. Fel arfer, nid ydynt yn arbennig o dda ar gyfer ymchwil archwiliadol sy'n mynnu nifer fawr o gwestiynau penagored, ac maen nhw'n gweithio orau gyda chwestiynau safonedig lle y gallwch fod yn hyderus y bydd yr ymatebwyr yn dehongli'r cwestiynau yn yr un ffordd.

Mae cynllunio holiadur da yn gofyn am fwy o fedrusrwydd a gwybodaeth nag a dybir yn aml, a hynny o ran geirio a threfnu'r cwestiynau a sut y gweinyddir yr holiadur. Er enghraifft, er bod cyfryngau electronig yn fodd effeithlon o ddosbarthu a chasglu niferoedd mawr, fe allent hefyd eithrio'r rhai hynny nad ydynt yn gyfarwydd â defnyddio dulliau ymchwil ar-lein neu nad ydynt yn gyfforddus yn eu defnyddio. Fe'ch cynghorir yn gryf i geisio cymorth arbenigol wrth ddefnyddio holiaduron oherwydd gall methodoleg a chynllun gwael ddirymu dibynadwyedd a dilysrwydd y data a gasglwch yn ogystal â gwastraffu adnoddau.

Bydd yr holiadur a ddewiswch yn dibynnu ar nodweddion eich ymatebwyr, pwysigrwydd cyrraedd ymatebwyr penodol, maint y sampl y mae arnoch ei hangen, a math a nifer y cwestiynau y mae angen i chi eu gofyn. Byddwch hefyd eisiau sicrhau nad yw atebion yr ymatebwyr wedi cael eu halogi, yn ogystal ag ystyried materion logistaidd fel amser, arian, rhwyddineb awtomeiddio cofnodi data ac, o ran defnyddio holiaduron ffôn, argaeledd cyfwelwyr.

### Dolenni defnyddiol

- Cyflwyniad i Ymchwil Ansoddol y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd

https://www.rds-yh.nihr.ac.uk/wp-content/uploads/2013/05/5_Introduction-to-qualitative-research-2009.pdf

- Canllaw GIG yr Alban ar Ddata i Gefnogi Partneriaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol wrth gynnal Comisiynu Strategol ar y Cyd ac Asesiadau Anghenion Strategol ar y Cyd

http://www.isdscotland.org/Health-Topics/Health-and-Social-Community-Care/docs/Guide-to-Data-to-Support-HSCPs-8Oct2014-FINAL.pdf

- Canllawiau'r Alban i Bartneriaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar ddefnyddio ffynonellau data ar gyfer Asesiad Anghenion Poblogaeth.

http://www.isdscotland.org/Health-Topics/Health-and-Social-Community-Care/docs/HSCP_NA_031014.pdf

# DADANSODDI EICH TYSTIOLAETH

Er mwyn dadansoddi'r data **meintiol** a gasglwch, yn gyntaf bydd angen i chi ei brosesu'n dechnegau fel siartiau, graffiau a thablau ystadegol neu unrhyw fformat sy'n eich galluogi i archwilio, cyflwyno, disgrifio ac archwilio perthnasoedd a thueddiadau yn y data. Mae amrywiaeth o becynnau cyfrifiadurol ar gael i gefnogi dadansoddi data, yn amrywio o daenlenni Excel i feddalwedd fwy datblygedig fel SPSS. Tybir y bydd llawer o'ch data **meintiol** yn cael ei gasglu o ffynonellau a geir yn y **CATALOG DATA**. Bydd angen i chi benderfynu pa ddata i'w flaenoriaethu a sut i'w drefnu, er enghraifft gan ddefnyddio offer a thechnegau fel GIS. Dylech hefyd gysylltu â'ch cydlynydd rhanbarthol i weld a wnaed unrhyw drefniadau cenedlaethol ar gyfer dadansoddi data sy'n gysylltiedig â'r Catalog Data.

Hyd yn gymharol ddiweddar, roedd dadansoddi data **ansoddol** yn dasg feichus yr oedd angen ei chyflawni â llaw, nid lleiaf oherwydd y rheol gyffredinol fod grwpiau o eiriau'n fwy anodd eu trefnu'n rhesymegol na rhifau. Fodd bynnag, mae dyfodiad meddalwedd dadansoddi data ansoddol gyda chymorth cyfrifiadur (CAQDAS) fel NVivo wedi gwneud trefnu data ansoddol yn dasg fwy hwylus o lawer. Er hynny, mae'r offer hyn yn dal i ddibynnu ar ddata gwreiddiol o ansawdd da a gall hyn fod ar sawl ffurf, e.e. trawsgrifiadau cyfweliadau, adroddiadau a nodiadau.

Ceir cryn dipyn o lenyddiaeth ar ddadansoddi data **meintiol ac ansoddol** a chyfeirir ati yn yr adran hon o'r pecyn cymorth. Sylwadau cyflwyniadol defnyddiol a wneir yma yn unig, felly. O ran ymchwil feintiol, mae dadansoddi'n golygu pethau fel crynhoi amlder newidynnau, gwahaniaethau rhwng newidynnau, a phrofion ystadegol a gynlluniwyd i amcangyfrif arwyddocâd ystadegol y canlyniadau (h.y. y tebygolrwydd nad oeddent wedi digwydd ar hap). Gwneir hyn i gyd, yn y bôn, trwy gyfrif pa mor aml y mae rhywbeth yn ymddangos yn y data a chymharu un mesur ag eraill. Ar ddiwedd y dadansoddi, bydd gennych nid yn unig fàs o ganlyniadau ond hefyd yr hyn y gallech ei alw'n "ddarlun mawr": y prif ganfyddiadau.

O ran ymchwil ansoddol, byddwch eisiau canfod y darlun mawr ond byddwch yn defnyddio technegau gwahanol i wneud hynny. Fel arfer, byddwch eisiau defnyddio'r data i ddisgrifio ffenomen, i fynegi'r hyn y mae'n ei olygu a'i ddeall. Mae gwahanol ymagweddau'n gofyn am wahanol fathau o ddadansoddi.

Mae'r rhan fwyaf o fathau o ddadansoddi'n golygu categoreiddio data geiriol neu ymddygiadol, at ddibenion dosbarthu, crynhoi a thablu. Gellir dadansoddi'r cynnwys ar ddwy lefel. Adroddiad disgrifiadol o'r data yw'r lefel sylfaenol: dyma'r hyn a ddywedwyd, a arsylwyd neu a gofnodwyd mewn gwirionedd heb ddod i unrhyw gasgliadau ohono na thybio unrhyw beth amdano. Mae rhai testunau'n cyfeirio at hyn fel lefel dadansoddi amlwg. Mae'r lefel dadansoddi uwch yn ddeongliadol: mae'n ymwneud â'r hyn a olygwyd gan yr ymateb, yr hyn a awgrymwyd. Fe'i gelwir yn lefel dadansoddi gudd weithiau.

Mae gweddill yr adran hon yn ymwneud â'r hyn a ystyrir yw'r brif ymagwedd ddadansoddol sydd ei hangen i gynnal asesiad poblogaeth, sef **dadansoddi sefyllfa ac ymateb**.

Un rheswm dros amlygu'r rhain yw bod adolygiad/gwerthusiad diweddar o'r Cynlluniau Integredig Sengl a gynhaliwyd ar ran Llywodraeth Cymru (http://gov.wales/statistics-and-research/evaluation-single-integrated-plans/?lang=en ) wedi adrodd am wersi defnyddiol o broses nad yw'n gwbl wahanol i'r asesiad y gofynnir i chi ymgymryd ag ef yn awr.

Adroddodd y gwerthusiad o Gynlluniau Integredig Sengl ganfyddiadau diddorol o ran y sylfaen dystiolaeth a'i dadansoddi. O ran y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, adroddodd fod 'asesiad o anghenion' yn golygu amlygu'r problemau mwyaf perthnasol a oedd yn wynebu cymunedau lleol a blaenoriaethu. Roedd hyn yn golygu asesu'r sefyllfa bresennol yn eu hardaloedd. Roedd yr adroddiad yn cyfeirio at yr ymagwedd hon fel **'dadansoddiad o'r sefyllfa'**. O ran awdurdodau eraill, roedd cysyniad asesu anghenion yn awgrymu ystyr ehangach ac yn cynnwys ystod eang o weithgareddau, gan gynnwys cynhyrchu dadansoddiad o'r sefyllfa ynghyd â: datgelu problemau mewn cymdogaethau, esbonio pam mae rhai pobl yn fwy agored i broblemau penodol nag eraill, ac amlygu cyfleoedd i wella'r sefyllfa bresennol. Mewn geiriau eraill, roeddent yn canolbwyntio ar ddeall pa ymyriadau a allai effeithio ar fywydau pobl yn yr ardal er gwell (ac, mewn rhai achosion, rhoi'r ymyriadau hyn ar waith).

Dylai eich asesiad o anghenion y boblogaeth ddangos dadansoddiad trylwyr o'r sefyllfa bresennol (y **'dadansoddiad o'r sefyllfa'**), ond hefyd geisio deall sut y gall partneriaethau ymateb yn effeithiol i'r sefyllfa (y **'dadansoddiad o'r ymateb'**). Mae hyn unwaith eto'n adlewyrchu'r cydbwysedd sydd ei angen rhwng gwybodaeth **ansoddol a meintiol**.

## Y Dadansoddiad o'r Sefyllfa

Bydd angen i chi ymgysylltu â phartneriaethau ac asiantaethau wrth gynhyrchu dadansoddiad o'r sefyllfa, yn ogystal â chyfuno data presennol a ddelir gan bartneriaethau sydd eisoes yn bodoli. Dylai eich gweithgarwch partneriaeth ac ymgysylltu beri i chi ddeillio canlyniadau, mesurau canlyniad, dangosyddion perfformiad a setiau data, trwy drafodaethau bord gron, gweithdai, grwpiau ysgrifennu neu seminarau. Bydd cynnwys y rhai hynny sy'n gwybod am faterion lleol drwy gydol y broses o greu sylfaen dystiolaeth yn amhrisiadwy. **YMGYSYLLTU**

Dylai eich gwerthusiad o anghenion helpu i ysgogi trafodaethau ymhlith partneriaid ac asiantaethau cynllunio. Er y gallai eich man cychwyn ganolbwyntio ar sefydlu set o ddangosyddion poblogaeth o'r dechrau y gellir ei defnyddio i ffurfio'r sail ar gyfer eich dadansoddiad o'r sefyllfa, bydd hefyd angen i chi sicrhau nad ydych yn colli materion pwysig y gellir eu cael trwy weithio ar y cyd er mwyn creu eich darlun o anghenion lleol. Bydd ymarfer casglu tystiolaeth trylwyr ac ar y cyd yn eich galluogi i ymgysylltu'n fwy ystyrlon, gan ddeillio dirnadaeth a dealltwriaeth o'r wybodaeth.

Ni ddylid ystyried datblygu dadansoddiad o'r sefyllfa fel darn o waith ar wahân - ymarfer bwrdd gwaith a gynhelir gan un unigolyn sy'n dwyn ynghyd dogfennau sydd eisoes yn bodoli yn unig. Dylai'r ymagwedd gydweithrediadol sicrhau bod yr holl asiantaethau partner yn berchen ar y data ac yn blaenoriaethu ei ddefnydd. Bydd ystyried y dadansoddiad o'r sefyllfa fel ymarfer ailadroddol yn helpu i greu diwylliant o gynaliadwyedd o ran yr asesiadau. Yn hyn o beth, dylai datblygu data fod yn flaenoriaeth i'r holl bartneriaid hefyd.

Mae'n anochel y byddwch yn wynebu llawer o heriau wrth gynnal eich asesiad poblogaeth, fel amser, costau, capasiti a gallu. Bydd pob un o'r rhain yn arbennig o amlwg yn ystod y cam dadansoddol. Mae egwyddor **CATALOG DATA** ystadegol yn hytrach na set ddata orfodol a rhagnodol yn adlewyrchu ysbryd yr ymagwedd y mae ei hangen, lle y gall partneriaid ddod at ei gilydd i amlygu blaenoriaethau a pherchen arnynt yn rhan o reoli'r prosiect.

Dylai eich dadansoddiad fod wedi'i seilio ar dystiolaeth **ansoddol** i wrthbwyso tystiolaeth **feintiol** a rhoi cyd-destun iddo, fel nad yw'r canlyniad wedi'i ategu gan ddadansoddiad ystadegol arwynebol i raddau helaeth. Bydd yr ymagwedd hon yn caniatáu i chi ddeall ffactorau achosol a chyd-destunol sy'n gallu effeithio ar y ffordd y mae data'n ymddwyn mewn gwahanol ardaloedd.

Er enghraifft, ni fydd lefelau uchel o gyflyrau tymor hir penodol fel diweithdra neu gyflyrau penodol cysylltiedig â thlodi yn deillio o'r un achosion sylfaenol o reidrwydd ym mhob ardal, ond mae'n bosibl na fydd yr ystadegau sydd ar gael yn datgelu'r cyd-destun sylfaenol.

Felly, mae'n bwysig cynnwys data **ansoddol** am achosion sylfaenol materion cymdeithasol yn y dadansoddiad o'r sefyllfa. Bydd taflu goleuni ar ffactorau ymddygiadol, cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd cymhleth sy'n gysylltiedig â phroblemau lleol sydd wedi ymwreiddio yn helpu i bennu dulliau ymyrryd effeithiol. Gellid cyflawni hyn trwy:

- Dealltwriaeth well o 'safbwynt y dinesydd', y gellid ei chael trwy eu cynnwys yn uniongyrchol yn y broses trwy ymgysylltu effeithiol a/neu ddefnyddio tystiolaeth a gwerthusiadau presennol.
- Cyfuno ymchwil bresennol ar yr hyn a wyddys ar hyn o bryd ac amlygu bylchau;
- Ffurfio perthnasoedd â'ch sefydliadau academaidd lleol sy'n ymchwilio i bynciau perthnasol ac sy'n fodlon cymryd rhan mewn trafodaethau ar wella'r sylfaen dystiolaeth sy'n sail i wasanaethau cyhoeddus.

## ADNODDAU A GWYBODAETH

Mae'r materion sy'n gysylltiedig â'ch asesiad poblogaeth a'r asesiad y mae angen i chi ei gynnal o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cydblethu'n amlwg. Mae'n bwysig, felly, bod cysylltiad agos rhwng y ddau ymarfer a bydd rhai ohonoch yn dymuno eu cyfuno.

## DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL

Nid yw'r pecyn cymorth hwn yn dod i gasgliad o ran pa ymagwedd sydd orau a bydd angen i chi benderfynu sut i symud ymlaen. Roedd y profiad a gafwyd gyda'r safle peilot wrth ddatblygu'r pecyn cymorth hwn yn awgrymu bod cryfderau'n gysylltiedig â mabwysiadu ymagwedd integredig oherwydd y gallu i groesgyfeirio data a materion. Fodd bynnag, roedd llawer o heriau'n gysylltiedig â chynnal pwyslais ar y ddau asesiad hefyd, a oedd yn golygu bod angen atgyfnerthu disgwyliadau gwahanol pob gofyniad yn rheolaidd. Felly, nid yw ymagwedd integredig yn fwy effeithlon o reidrwydd na dau asesiad ar wahân. Os dewisir y dull hwn, pwysleisiwn fod rhaid sicrhau nad yw uniondeb eich asesiad poblogaeth a'ch adroddiad yn cael ei beryglu gan unrhyw weithgarwch arall tebyg.

Bydd eich dadansoddiad ystadegol yn elwa ar ddefnyddio dadansoddiad ystadegol casgliadol – gwneud rhagfynegiadau neu gasgliadau am boblogaeth o ddadansoddi sampl – y cyfeirir ato yn yr adran **DULLIAU YMCHWIL.**

Byddai dadansoddiad cydberthynas ac atchweliad yn gwella soffistigeidrwydd eich canlyniad yn yr achosion hyn.

Bydd ystyried y dadansoddiad o'r sefyllfa fel ymarfer ailadroddol yn helpu i greu diwylliant o gynaliadwyedd o ran asesiadau anghenion. I'r perwyl hwn, dylai datblygu data gael ei ystyried yn flaenoriaeth mewn awdurdodau lleol sydd wedi datgelu problemau o ran ansawdd ac argaeledd data.

### Dadansoddi'r Ymateb

Nid yw dadansoddi sut rydych yn ymateb i'r dadansoddiad o'r sefyllfa yr un fath â pharatoi cynllun gweithredu manwl. Bydd angen i hyn ddilyn eich adroddiad asesiad poblogaeth o dan ddarpariaethau adran 14a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).
**CYNLLUNIAU AR GYFER Y DYFODOL**

O ran cyflawni'r canlyniadau bwriadedig, bydd angen i'ch adroddiad gyfeirio at eich dadansoddiad o dystiolaeth wrth ddisgrifio, yn nhermau prif faterion, yr hyn y mae angen ei wneud i fynd i'r afael â'r materion a amlygwyd. Bydd angen i chi flaenoriaethu sylw a mabwysiadu ymagwedd fesul cam o bosibl, gan gynnwys ymrwymiad i gynnal dadansoddiad ychwanegol o feysydd penodol. Fe allai fod yn ddefnyddiol amlygu eich bwriadau fel rhai **tymor byr, tymor canolig** a **thymor hir.**

Dylai'r dadansoddiad o'r ymateb ganolbwyntio ar amlygu sut y gall ymyriadau, yn enwedig rhai ataliol, gynorthwyo i nodi pa ddulliau ymyrryd sy'n gweithio orau i fynd i'r afael â materion penodol a amlygwyd trwy'r dadansoddiad o dystiolaeth.

Dylech gynhyrchu dadansoddiad o ymateb sy'n cynnwys archwiliad o adroddiadau ar ymyriadau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol perthnasol y gwyddys eu bod yn cael effaith, o ryw fath, ar y materion a amlygwyd. Fodd bynnag, dylech sylweddoli nad yw ymchwilwyr bob amser yn cytuno'n unfrydol ar dystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio, felly bydd angen i chi gyfiawnhau eich penderfyniadau. Yn y pen draw, dylai eich asesiad poblogaeth gael ei ystyried yn fodd o ffurfio dulliau o ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol, yn ogystal â darparu ystod o fuddion eraill a amlinellir mewn man arall yn y pecyn cymorth hwn.

**BUDDION**

Mae ymgysylltu yr un mor bwysig i'ch dadansoddiad o'r ymateb, a dylid dilyn yr egwyddorion a'r arferion yn yr adran ar ymgysylltu fel bod tystiolaeth o sut mae gwaith ymgysylltu wedi llywio eich ymateb.

**YMGYSYLLTU**

Mae trafodaethau trawsasiantaethol rhwng dadansoddwyr ac eraill sy'n ymwneud â'r broses ddadansoddol yn ffordd effeithiol o gydweithredu a grymuso, ac fe all helpu i gyfleu bwriadau cyffredinol yr asesiad poblogaeth i unigolion allweddol.

Dylech roi'r un faint o sylw i'ch dadansoddiad o'r ymateb i'ch dadansoddiad o'r sefyllfa. Bydd llawer o'ch gwaith yn canolbwyntio ar baratoi ac arfarnu tystiolaeth werthusol ar effeithiolrwydd ymyriadau o ran cyflawni eu canlyniadau bwriadedig.

Yn ei hanfod, dylai fod llinyn aur rhwng amlygu anghenion ac ystod a lefel bresennol y gwasanaethau sydd ar gael, fel a welir trwy eich dadansoddiad o'r sefyllfa, a chynlluniau i fodloni'r anghenion hynny yn y dyfodol trwy wahanol wasanaethau, yn enwedig rhai ataliol, fel a welir trwy eich dadansoddiad o'r ymateb.

**ATAL**

Byddai'n fuddiol cysylltu â sefydliadau academaidd ynglŷn â chryfhau'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer ymyrryd. Byddai cyfuno cyllidebau ac adnoddau dadansoddol yn helpu hefyd, yn enwedig o ran deall achosion angen a datrysiadau profedig. I'r perwyl hwn, fe allech ystyried galluogi gwahanol bartneriaid i arwain ar wahanol faterion. Yn gryno, bydd buddsoddi mewn dadansoddiad da yn arwain at well penderfyniadau a gwell canlyniadau i bobl.

Mae'n rhaid i'ch dadansoddiad o'r sefyllfa a'r ymateb adlewyrchu ymagwedd ar y cyd sy'n cynnwys yr holl bartneriaid ac eraill fel dadansoddwyr, ystadegwyr ac ymchwilwyr cymdeithasol i rannu syniadau a fyddai'n helpu i gynhyrchu ymateb effeithiol. Dyma restr wirio i arwain eich ymagwedd at ddadansoddi eich tystiolaeth:

- Mabwysiadu methodoleg seiliedig ar ganlyniadau (fel Atebolrwydd Seiliedig ar Ganlyniadau ac amrywiadau arno) sy'n ceisio dangos achosiaeth ac atebolrwydd; http://resultsaccountability.com/
- Haenu data, lle y bo'n ymarferol, yn gategorïau perthnasol er mwyn datblygu dealltwriaeth o bwy y mae problemau cymdeithasol penodol yn effeithio arnynt. Mae'r themâu'n darparu sail dda ar gyfer hyn. **THEMÂU CRAIDD**
- Gwneud yn siwr bod anghenion y grwpiau a gwmpasir gan ddeddfwriaeth cydraddoldeb yn cael eu hamlygu'n glir ar gyfer yr ardal gyfan, fel y gellir cymryd camau priodol ar draws y gymuned;
- Dadansoddi tystiolaeth yn ofodol, er mwyn datblygu dealltwriaeth o ble ac i ba raddau y mae anghenion wedi'u crynhoi neu eu gwasgaru ar draws cymdogaethau;
- Dadansoddi tystiolaeth o ran grwpiau oedran lle y bo'n briodol;
- Neilltuo amser i ddatblygu fframweithiau gwerthuso trylwyr sy'n caniatáu ar gyfer asesu effeithiolrwydd a dylanwad, neu sy'n llywio hynny'n rhannol o leiaf;
- Ystyried dulliau presennol o gasglu data a thystiolaeth a'u diwygio er mwyn darparu ymagwedd fwy cadarn;
- Defnyddio metawerthuso ac adolygiadau tystiolaeth i lywio barn gynnar am fentrau ac ymagweddau newydd;
- Manteisio ar gyfleoedd i arloesi, er enghraifft archwilio cysylltiadau data; a
- Cheisio enghreifftiau o arfer gorau a dysgu ohonynt.

### Enghreifftiau o ganllawiau ar-lein ar ddadansoddi data

- Safle cynnyrch SPSS

http://www.spss.com/statistics

Y safle cynnyrch ar gyfer SPSS, sef pecyn rheoli a dadansoddi data ystadegol. Mae'n cynnwys fersiwn arddangos rad ac am ddim.

- Safle adnodd SPSS UCLA

http://www.ats.ucla.edu/stat/spss

Canllawiau a dosbarthiadau ar-lein helaeth ar ddefnyddio SPSS a gynhyrchwyd gan Brifysgol Califfornia yn yr Unol Daleithiau.

- Safle lawrlwytho e-lyfr rhad ac am ddim

http://www.freeebooksdl.com/09/Using-SPSS-for-Windows.html

### Gwerthuso Cynlluniau Integredig Sengl

- Gwersi a ddysgwyd

http://gov.wales/statistics-and-research/evaluation-single-integrated-plans/?lang=en

**RHESTR WIRIO CASGLU A DADANSODDI**

A ydych chi wedi sefydlu

- ☐ Cynllun ar gyfer casglu tystiolaeth
- ☐ Cydbwysedd priodol rhwng gwaith casglu data ac ymgysylltu
- ☐ Pa rannau o'r catalog data y byddwch yn eu defnyddio
- ☐ Pa ddata, ymchwil a gwybodaeth arall y byddwch yn eu defnyddio
- ☐ System ar gyfer cydgrynhoi asesiadau unigol, i lywio eich tystiolaeth
- ☐ System ar gyfer cael gwybodaeth o'ch gwasanaethau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth
- ☐ Strategaeth ymgysylltu sy'n bodloni'r gofynion penodedig
- ☐ Ymagwedd at gyflawni dadansoddiad o'r sefyllfa a'r ymateb

# YSTYRIAETHAU STRATEGOL

# ASESIADAU O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

Mae'r Cod Ymarfer yn mynnu eich bod chi'n cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn rhan o'ch asesiad poblogaeth, er mwyn bodloni eich dyletswyddau cydraddoldeb. Mae'n hollbwysig eich bod chi'n cynnwys hyn yn y broses gyfan ac mae'n rhywbeth y mae'n rhaid i chi ei wneud o'r dechrau.

Bydd gan bob ardal (awdurdod lleol a Bwrdd Iechyd Lleol) ei phroses ei hun ar gyfer cynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb, a bydd angen i chi benderfynu ar y cyd sut y dymunwch ei gynnal fel ymarfer ar y cyd. Bydd angen i'ch tîm prosiect gytuno ar ba broses asesu i'w dilyn ar y cyd.

Mae gwybodaeth am rai o ganfyddiadau mwyaf diweddar y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol o ran cydraddoleb ar gael yn

http://www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/publication_pdf/Is_Wales_Fairer_2015_eng_web_32pager.pdf

Mae adnodd gwybodaeth ac arfer gorau ynglŷn ag Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gael yn:

http://www.eiapractice.wales.nhs.uk/home

Bydd angen i chi hefyd ystyried unrhyw waith sydd wedi cael ei wneud yn lleol ar Gynlluniau Cydraddoldeb Strategol a sut y bydd eich asesiad yn cyd-fynd ag ef.

# Y GYMRAEG

Mae'r Cod Ymarfer yn datgan bod rhaid i chi nodi sut y bydd ystod a lefel y gwasanaethau a amlygwyd yn yr asesiad poblogaeth yn cael eu darparu trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn benodol:

- Mae'n rhaid i adran 2 adroddiad yr asesiad poblogaeth nodi'r camau y mae angen eu cymryd i ddarparu ystod a lefel y gwasanaethau yr amlygwyd eu bod yn angenrheidiol trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Wrth asesu faint o bobl y mae arnynt angen gofal a chymorth a faint o ofalwyr y mae arnynt angen cymorth, dylech sefydlu, ac egluro yn eich adroddiad asesiad poblogaeth, proffil y gymuned Gymraeg ei hiaith.

## Cysylltiadau strategol

Mae'r fframwaith strategol dilynol 'Mwy na Geiriau' yn amlinellu'r disgwyliadau ar Gyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol i sefydlu proffil iaith Gymraeg eu cymuned, fel sail i gynllunio gwasanaethau. Disgwylir hefyd y bydd cynnig gweithredol o wasanaethau Cymraeg ar gael. Mae cynlluniau gweithredu ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol wedi'u datblygu. Mae canllawiau ychwanegol ar gael yn

http://gov.wales/topics/health/publications/health/guidance/words/?lang=en

## Proffil iaith Gymraeg ac anghenion siaradwyr Cymraeg

### Data

Rydym ni wedi cynnwys data sydd ar gael am yr iaith Gymraeg yn y Catalog Data Ystadegol. Mae dadansoddiad o gyfrifiad a phroffiliau 2011 ar gael yn http://bit.ly/1m8h063 ac mae dadansoddiad yn ôl awdurdod lleol ar gael yn http://bit.ly/1PMmpXT

### Ymchwil a gwybodaeth

Mae ymchwil a gwybodaeth ychwanegol ar gael ar gofrestr ymchwil Comisiynydd y Gymraeg

Mae arolwg o ddefnyddwyr gwasanaeth awdurdodau lleol, a rennir yn ôl rhanbarth, ar gael yn

http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/English/Policy,%20research%20and%20data/Census%20Data/Pages/2011Censusresultsbylocalauthority.aspx

Mae'r Pecyn Cymorth Urddas mewn Gofal yn cynnwys adnoddau ymarferol ar gyfer archwiliadau iaith Gymraeg hefyd

http://gov.wales/docs/dhss/publications/110802olderen.pdf

### Ymgysylltu trwy gyfrwng y Gymraeg

Bydd angen i chi ystyried ffyrdd o ymgysylltu â siaradwyr Cymraeg ynglŷn ag anghenion gofal a chymorth. Gellir gwneud hyn trwy gwestiwn uniongyrchol yn rhan o'ch ymgysylltiad ehangach â'r gymuned a gellid ei ategu â grŵp ffocws iaith Gymraeg.

### Cydgrynhoi Asesiadau Unigol

Mae'r Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol ar gyfer pobl y mae arnynt angen cymorth a gofalwyr y mae arnynt angen cymorth yn cynnwys y datganiad canlyniad 'Rydw i'n cael gofal a chymorth trwy gyfrwng y Gymraeg os ydw i'n ei ddymuno'. Lle mae cynlluniau gofal a chymorth yn cyfeirio at y canlyniad hwn, gellid defnyddio'r wybodaeth hon i lywio eich proffil iaith Gymraeg.

**FFRAMWAITH CANLYNIADAU CENEDLAETHOL**, **CYDGRYNHOI ASESIADAU UNIGOL**

## Amlygu capasiti mewn gwasanaethau

### Capasiti'r Gweithlu

Mae'r asesiad poblogaeth yn mynnu eich bod chi'n amlygu'r camau sy'n ofynnol i ddarparu ystod a lefel gwasanaethau. Er mwyn amlygu'r camau hynny, dylech ystyried sut y byddwch yn nodi capasiti eich gweithlu i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg.

I gael gwybodaeth am ystod a lefel y ddarpariaeth Gymraeg ar gyfer darparwyr cofrestredig, cysylltwch ag AGGCC am gyngor

http://cssiw.org.uk/about/strategic-plan/more-than-just-words/?lang=en

### Bodloni'r Cynnig Gweithredol

Bydd hefyd angen i chi ystyried y capasiti cyffredinol ar gyfer gwneud cynnig gweithredol o wasanaethau Cymraeg a sut y byddwch yn sicrhau hynny. Enghraifft o hyn fyddai arweiniad neu hyfforddiant rydych wedi'i gynhyrchu neu'n bwriadu ei ddarparu i'ch gweithlu, gan gynnwys unrhyw hyfforddiant ar gyfer darparwyr annibynnol a thrydydd sector. Mae Cyngor Gofal Cymru yn gallu cynnig cyngor a chymorth ar ddatblygu'r gweithlu Cymraeg. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am yr hyfforddiant sydd ar gael i fodloni gofynion 'Mwy na Geiriau'.

http://bit.ly/20BWf28

### Ystod a Lefel Gwasanaethau

Wrth fapio ystod a lefel gwasanaethau, dylech gynnwys (lle y mae'n hysbys) p'un a yw'r gwasanaethau hyn yn cael eu cynnig yn Gymraeg ar hyn o bryd.

# FFRAMWAITH CANLYNIADAU CENEDLAETHOL

Mae'r Cod Ymarfer yn datgan bod rhaid i chi ystyried y fframwaith canlyniadau cenedlaethol a'r fframwaith mesur perfformiad awdurdodau lleol a amlinellir yn y cod ymarfer mewn perthynas â mesur perfformiad gwasanaethau cymdeithasol.

Mae'r fframwaith canlyniadau cenedlaethol yn amlinellu'r canlyniadau llesiant pwysig sy'n gallu gwneud gwahaniaeth go iawn i fywydau pobl. Mae'n rhaid i wasanaethau ystyried y rhain wrth gynllunio gofal a chymorth. Pan fydd pobl y mae arnynt angen gofal a chymorth a gofalwyr y mae arnynt angen cymorth yn cynhyrchu eu canlyniadau llesiant personol ar y cyd â gwasanaethau cymdeithasol a'u partneriaid, mae'r canlyniadau personol yn fwy tebygol o adlewyrchu'r canlyniadau a ddiffinnir yn y datganiad llesiant.

Bydd angen i chi ddeall gwybodaeth yn ymwneud â chanlyniadau personol pobl, proses asesu unigol anghenion gofal a chymorth, neu anghenion cymorth gofalwyr, sut mae'r rhain yn gysylltiedig â'r canlyniadau cenedlaethol a nodir yn y fframwaith canlyniadau cenedlaethol a sut y gwneir cynnydd yn erbyn y rhain.

**CASGLU TYSTIOLAETH, THEMÂU CRAIDD**

Mae manylion am y Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol ar gael yn

http://gov.wales/topics/health/socialcare/well-being/?lang=en

Mae taflen wybodaeth am y fframwaith canlyniadau cenedlaethol a'r fframwaith mesur perfformiad ar gael ar yr Hyb Dysgu

http://www.ccwales.org.uk/welsh-government-factsheets/

Mae'n rhaid i'ch asesiad poblogaeth ymwneud â themâu craidd penodol. Mae'n rhaid iddo hefyd ystyried gwahaniaethau o ran oedran a lleoliad. Mae ychwanegu'r fframwaith canlyniadau cenedlaethol at y broses hon yn cyflwyno her hanfodol ond anodd. Dylech ystyried defnyddio'r fframwaith ar dri cham o leiaf er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r her hon.

### Cam 1

Defnyddiwch y canlyniadau a ddiffiniwyd yn y datganiad llesiant i helpu i roi cyfeiriad i gasglu tystiolaeth, ochr yn ochr â'r themâu craidd, yn enwedig wrth ymgysylltu â phobl ynglŷn â faint o ofal a cymorth y mae arnynt eu hangen i'w helpu i gyflawni eu canlyniadau llesiant personol. Gwnewch yn siwr fod y cwestiynau y dymunwch eu gofyn i bobl a'ch sgyrsiau â nhw yn cael eu llywio gan enghreifftiau o'r canlyniadau a ddiffiniwyd yn y datganiad llesiant.

### Cam 2

Ystyriwch i ba raddau y mae gwasanaethau'n cynorthwyo pobl i gyflawni'r canlyniadau a ddisgrifiwyd yn y datganiad llesiant wrth ddadansoddi eich tystiolaeth ac ystod a lefel y gwasanaethau sydd ar gael.

### Cam 3

Defnyddiwch y Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol fel offeryn rheoli ansawdd wrth ystyried p'un a yw'r prif fwriadau sy'n codi o'ch asesiad poblogaeth yn debygol o gyflawni'r amcanion a ddiffiniwyd yn y datganiad llesiant.

Dylech nodi hefyd fod y cod ymarfer mewn perthynas â mesur perfformiad gwasanaethau cymdeithasol yn gosod gofynion ar awdurdodau lleol o ran mesurau ansoddol a meintiol, a dylech ystyried p'un a allai'r rhain fod yn ddefnyddiol wrth lywio eich asesiad poblogaeth. Mae'r rhain hefyd ar gael trwy'r ddolen hon

http://gov.wales/topics/health/socialcare/well-being/performance/?lang=en

## Y FFRAMWAITH MESUR PERFFORMIAD AR GYFER AWDURDODAU LLEOL

Mae'r fframwaith mesur perfformiad ar gyfer awdurdodau lleol wedi'i gynnwys yn y Cod Ymarfer mewn perthynas â mesur perfformiad gwasanaethau cymdeithasol a gyhoeddwyd o dan adran 145 y Ddeddf. Gallai unrhyw wybodaeth a gesglir trwy eich trefniadau rheoli perfformiad fod yn ddefnyddiol i'ch asesiad. Mae gwybodaeth a chyfarwyddyd ar gasglu gwybodaeth yn rhan o'ch trefniadau rheoli perfformiad ar gael yma, gan gynnwys enghreifftiau o offer casglu data fel sgriptiau cyfweliad a holiaduron.

http://gov.wales/topics/health/socialcare/well-being/performance/?lang=en

Mae taflen wybodaeth ar gael hefyd ar yr Hyb Dysgu

http://www.ccwales.org.uk/welsh-government-factsheets/

Mae'r fframwaith mesur perfformiad ar gyfer awdurdodau lleol yn cynnwys safonau ansawdd sy'n disgrifio gweithgareddau awdurdodau lleol sy'n cyfrannu at gyflawni canlyniadau llesiant mewn perthynas â'u swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol, a mesurau perfformiad sy'n dangos p'un a yw'r safonau ansawdd yn cael eu cyflawni. Mae'r Cod Ymarfer mewn perthynas â mesur perfformiad gwasanaethau cymdeithasol yn mynnu eich bod yn rhoi sylw penodol i'r mesurau perfformiad hyn yng nghyd-destun cyflawni canlyniadau, ac maen nhw'n cynnwys mesurau ansoddol a meintiol. Mae'r Cod hefyd yn disgrifio sut y gall llesiant unigol pobl gael ei gydgrynhoi a sut y dylai awdurdodau lleol ddefnyddio gwybodaeth am lesiant unigol pobl i asesu perfformiad y gwasanaethau a ddarperir. Mae rhagor o wybodaeth am ddefnyddio asesiadau unigol a chynlluniau gofal ar gael yn yr adran **CYDGRYNHOI ASESIADAU UNIGOL**.

# DOLENNI I DDEDDFWRIAETH A CHYNLLUNIAU ERAILL

Mae'n rhaid i chi roi ystyriaeth briodol i ddeddfwriaeth a chynlluniau strategol eraill wrth gynnal eich asesiad poblogaeth, yn enwedig:

- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar hawliau pobl anabl

http://www.ohchr.org/EN/HRBodies/CRPD/Pages/ConventionRightsPersonsWithDisabilities.aspx

- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar hawliau plant

http://www.unicef.org.uk/Documents/Publication-pdfs/UNCRC_summary.pdf ac

- Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer pobl hŷn

http://www.ohchr.org/EN/ProfessionalInterest/Pages/OlderPersons.aspx

Mae'r angen i ystyried yr egwyddorion a'r confensiynau hyn wedi'i ymgorffori yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) mewn perthynas ag unrhyw unigolyn y mae arno angen gofal a chymorth ac unrhyw ofalwr y mae arno angen cymorth. Felly, dylech ymgyfarwyddo â hwy a sicrhau eu bod yn cael eu hystyried.

- Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddusa geir yn adran 149 Deddf Cydraddoldeb 2010 sy'n mynnu bod pob awdurdod cyhoeddus yn rhoi ystyriaeth briodol i nodweddion gwarchodedig wrth arfer eu swyddogaethau. Mae'n rhaid i chi, felly, gynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn rhan o'r broses o gynnal asesiad poblogaeth. **ASESIADAU O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB**

- Cynlluniau Tymor Canolig Integredig a'r ardaloedd cynllunio lleol a sefydlwyd yn dilyn Gosod y Cyfeiriad a gyhoeddwyd yn 2010. Bydd y rhain yn llywio eich asesiad poblogaeth ac, yn eu tro, yn cael eu llywio ganddo.

http://gov.wales/topics/health/publications/health/strategies/settingthedirection/?lang=en

- Rhan 2 Deddf Tai (Cymru) 2014 sy'n mynnu bod awdurdodau lleol yn llunio strategaeth ddigartrefedd er mwyn atal digartrefedd ac ymateb iddo. Oherwydd ei bod yn debygol y bydd gan y rhai hynny sy'n cael eu heffeithio gan ddigartrefedd, neu sydd mewn perygl o gael eu heffeithio ganddo, anghenion gofal a chymorth, dylai eich asesiad poblogaeth lywio'r broses o lunio strategaeth ddigartrefedd.

- Unrhyw strategaeth sy'n ymwneud yn benodol â phobl a enwir yn y themâu craidd y mae'n rhaid i chi gyfeirio atynt yn Adran 1 eich adroddiad, sef
  - plant a phobl ifanc;
  - pobl hŷn;
  - iechyd / anableddau corfforol;
  - anabledd dysgu/awtistiaeth;

- iechyd meddwl;
- nam ar y synhwyrau;
- gofalwyr y mae arnynt angen cymorth; a
- thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Ceir adran ar wahân ar y Ddeddf hon mewn man arall yn y pecyn cymorth hwn oherwydd ei pherthnasedd arbennig

**DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU)**

### Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

Mae Adran 56 y Ddeddf hon yn diwygio Adran 144 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 trwy osod dyletswydd ar awdurdodau lleol i baratoi a chyhoeddi adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad leol ar adegau sydd i'w pennu gan reoliadau.

Mae'n rhaid i adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad leol gynnwys:

(a) asesiad yn ardal yr awdurdod lleol o—

(i) ddigonolrwydd y ddarpariaeth gofal a chymorth;

(ii) i ba raddau y darperir gwasanaethau a reoleiddir gan ddarparwyr gwasanaeth;

(iii) unrhyw fater arall yn ymwneud â darparu gwasanaethau a reoleiddir;

(iv) sut mae'r asesiad yn effeithio ar gomisiynu gwasanaethau cymdeithasol gan yr awdurdod;

a (b) adroddiad ar unrhyw gamau a gymerwyd mewn perthynas â digonolrwydd darparu gofal a chymorth.

- Wrth baratoi adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad leol, mae'n rhaid i awdurdod lleol ystyried yr asesiad poblogaeth mwyaf diweddar a gyhoeddwyd a'r cynllun sy'n ei ddilyn **CYNLLUNIAU AR GYFER Y DYFODOL** ac ymgynghori â phob Bwrdd Iechyd Lleol y cynhaliodd yr asesiad gyda hwy.
- Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad wedi hynny i gyhoeddi adroddiad cenedlaethol ar sefydlogrwydd y farchnad.

### Cyngor

Mae natur eich gwaith yn golygu y byddwch eisiau ystyried effaith yr holl ddeddfwriaeth a chynlluniau yr ydych chi a'ch partneriaid yn eu gweithredu. Mae'n amhosibl rhestru'r rhain yma, felly mae'n bwysig eich bod chi nid yn unig yn sefydlu trefniadau partneriaeth effeithiol rhwng asiantaethau, ond hefyd yn sicrhau bod cysylltiadau'n cael eu creu ag adrannau a gwasanaethau eraill ym mhob asiantaeth. Trwy wneud hyn, ni fydd rhaid i chi amlygu'r holl gydberthnasau o flaen llaw oherwydd dylai pob gwasanaeth allu cyfrannu gwybodaeth berthnasol trwy'r broses. Nid oes dyletswydd benodol i groesgyfeirio strategaethau a chynlluniau eraill yn eich adroddiad, ond dylech roi ystyriaeth iddynt, a byddwch eisiau gwneud hynny er mwyn cynhyrchu asesiad ystyrlon.

Dylech fonitro cynnydd mentrau eraill a allai effeithio ar gynnwys a phroses eich asesiad poblogaeth. Mae'r Papur Gwyn Llywodraeth Leol, sef Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol, er enghraifft, yn cyfeirio at yr angen i Brif Weithredwyr awdurdodau lleol gynhyrchu cynllun corfforaethol a fydd yn amlinellu sut mae'r awdurdod yn bwriadu mynd i'r afael â blaenoriaethau'r Weithrediaeth yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir.

Bydd hyn yn dwyn ynghyd drefniadau'r Awdurdod ar gyfer cynllunio strategol, cynllunio ariannol a chynllunio'r gweithlu. Bydd cyfarwyddyd yn cael ei lunio i helpu awdurdodau lleol i baratoi eu cynllun corfforaethol, ond disgwylir iddo gynnwys o leiaf y canlyniadau poblogaeth strategol ar gyfer yr ardal, fel y cytunir yn y Cynllun Llesiant a fydd yn ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Bydd angen i waith ar eich asesiad poblogaeth a pharatoi'r adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad gael ei gydlynu'n briodol er mwyn sicrhau y deellir cyfrifoldebau ac amserlenni. Bydd angen i chi ystyried y gofynion i weithio mewn partneriaeth sy'n darparu ar gyfer cronfeydd cyfun.

**TREFNIADAU PARTNERIAETH**

# DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

Mae'r Ddeddf hon yn sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) ar gyfer pob ardal awdurdod lleol y mae'n rhaid iddynt gynnwys, ymhlith eraill, yr awdurdod lleol a'r Bwrdd Iechyd Lleol. Mae'n rhaid i bob BGC wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol eu hardal trwy weithio i gyflawni'r nodau llesiant. Byddant yn gwneud hyn trwy:

- Asesu cyflwr y llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn eu hardal; a
- Gosod amcanion a gynlluniwyd i gynyddu cyfraniad y BGC at y nodau llesiant i'r eithaf.

Mae'n rhaid i bob BGC baratoi a chyhoeddi cynllun sy'n amlinellu eu hamcanion a'r camau y byddant yn eu cymryd i'w cyflawni. Gelwir hyn yn Gynllun Llesiant Lleol. Mae'n rhaid iddo ddweud:

- Pam mae'r BGC yn credu y bydd ei amcanion yn cyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant yn yr ardal leol, a
- Sut mae wedi ystyried yr Asesiad o Lesiant Lleol wrth sefydlu ei amcanion a'r camau i'w cymryd.

Bydd pob BGC yn cynnal adolygiad blynyddol o'u cynllun yn dangos eu cynnydd.

Wrth lunio eu Hasesiadau o Lesiant Lleol a'u Cynllun Llesiant Lleol, rhaid i bob BGC ymgynghori'n eang. (D.S. Ni fydd angen i chi ymgynghori'n ffurfiol ar yr adroddiad asesiad poblogaeth gan y byddwch yn ymgysylltu â'r gymuned drwy gydol yr asesiad).

Mae darnau o ddarpariaethau canlynol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) wedi'u cynnwys yma er hwylustod er mwyn eich helpu i bennu sut i reoli'r berthynas rhwng yr asesiad sy'n ofynnol o dan y Ddeddf hon a'ch asesiad poblogaeth. Bydd angen i chi ymgyfarwyddo â'r gofynion manwl a sicrhau bod cysylltiad priodol rhwng y ddau asesiad.

### Adran 37 - Asesiadau llesiant lleol

- Mae'n rhaid i fwrdd gwasanaethau cyhoeddus baratoi a chyhoeddi asesiad o gyflwr y llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn ei ardal.
- Mae'n rhaid i bob bwrdd gyhoeddi'r asesiad ddim hwyrach na blwyddyn cyn y dyddiad y disgwylir gyhoeddi cynllun llesiant lleol.
- Mae'n rhaid i asesiad—

a) sefydlu pa ardaloedd cymunedol sy'n rhan o ardal y bwrdd;

b) cynnwys dadansoddiad o gyflwr llesiant ym mhob ardal gymunedol ac yn yr ardal yn gyffredinol;

c) cynnwys dadansoddiad o gyflwr llesiant pobl yn yr ardal;

ch) cynnwys unrhyw ddadansoddiad ychwanegol a gynhelir gan y bwrdd trwy gyfeirio at y meini prawf a osodwyd ac a gymhwyswyd ganddo er mwyn asesu llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn yr ardal neu mewn unrhyw gymuned yn yr ardal;

d) cynnwys rhagfynegiadau ynghylch tueddiadau tebygol yn y dyfodol o ran llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yr ardal;

dd) cynnwys unrhyw wybodaeth a data dadansoddol arall cysylltiedig sy'n briodol ym marn y bwrdd.

Mae'n rhaid i ddadansoddiad

a) gyfeirio at unrhyw ddangosyddion cenedlaethol a gyhoeddwyd o dan adran 10;

b) cyfeirio at adroddiad ar dueddiadau yn y dyfodol o dan adran 11 i'r graddau ei fod yn berthnasol i'r asesiad o lesiant yn yr ardal.

- Caiff y dadansoddiad gynnwys dadansoddiadau o gategorïau penodol o unigolion a bennir gan y bwrdd gan gyfeirio at—

a) y ffaith bod unigolion yn agored i niwed neu dan anfantais fel arall am yr un rhesymau neu resymau tebyg;

b) y ffaith bod yr unigolion yn meddu ar nodwedd warchodedig gyffredin o fewn ystyr Pennod 1 Rhan 2 Deddf Cydraddoldeb 2010 (c.15);

c) y ffaith bod yr unigolion yn blant (pobl iau na 18 oed);

ch) y ffaith bod yr unigolion yn bobl ifanc sydd â hawl i gael cymorth o dan adrannau 105 i 115 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

d) pa un a yw'r unigolion—

i) angen gofal a chymorth o bosibl (fel y'u disgrifir yn Rhan 3 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014) neu'n

ii) darparu neu'n bwriadu darparu gofal a chymorth i unigolion y gallai fod arnynt angen gofal a chymorth;

dd) unrhyw ffactor cyffredin arall y mae'r Bwrdd yn credu ei fod yn briodol wrth ddisgrifio categori unigolion.

### Adran 38 - Paratoi Asesiadau

Wrth baratoi ei asesiad, mae'n rhaid i bob bwrdd ystyried yr asesiad poblogaeth mwyaf diweddar.

### Adran 39 - Cynlluniau llesiant lleol

- Mae'n rhaid i fwrdd gwasanaethau cyhoeddus baratoi a chyhoeddi cynllun ("cynllun llesiant lleol") sy'n nodi ei amcanion lleol a'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd i'w cyflawni.
- Mae'n rhaid i gynllun llesiant lleol gynnwys datganiad sy'n—

a) esbonio pam mae'r bwrdd o'r farn y bydd bodloni'r amcanion lleol yn cyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant yn yr ardal;

b) esbonio sut y pennwyd yr amcanion ac unrhyw gamau arfaethedig o ran unrhyw faterion a grybwyllwyd yn yr asesiad mwyaf diweddar o lesiant a gyhoeddwyd o dan adran 37;

c) nodi erbyn pryd y mae'r bwrdd yn disgwyl cyflawni'r amcanion;

ch) esbonio sut y bwriedir cymryd unrhyw gamau arfaethedig yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy;

d) os yw'r cynllun yn cynnwys amcanion y cyfeirir atynt yn is-adran (2)(b), nodi'r camau arfaethedig sydd i'w cymryd i gyflawni'r amcanion hynny ac, yn achos camau sydd i'w cymryd gan gyfuniad o aelodau'r bwrdd, cyfranogwyr a wahoddir neu bartneriaid eraill, yr unigolion sy'n ffurfio'r cyfuniad;

dd) os nad hwn yw'r cynllun cyntaf i'w gyhoeddi gan y bwrdd, nodi'r camau a gymerwyd i fodloni'r amcanion a amlinellwyd yng nghynllun blaenorol y bwrdd an nodi i ba raddau y cyflawnwyd yr amcanion hynny;

e) darparu'r cyfryw wybodaeth arall ag sy'n briodol ym marn y bwrdd.

- Mae'n rhaid i bob bwrdd gyhoeddi eu cynllun llesiant lleol cyntaf ddim hwyrach na blwyddyn ar ôl y dyddiad pryd y cynhelir yr etholiad arferol nesaf o dan adran 26 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (c. 70) yn dilyn dechrau'r adran hon, h.y. erbyn 4 Mai 2018. (Sylwer bod rhaid i'r asesiad o lesiant lleol gael ei gyhoeddi ddim hwyrach na blwyddyn cyn i'r cynllun llesiant lleol gael ei gyhoeddi, felly mae'n rhaid iddo gael ei gwblhau erbyn diwedd mis Ebrill 2017).

### Adran 47 - Cyfuno byrddau gwasanaethau cyhoeddus

1) Caiff dau fwrdd gwasanaethau cyhoeddus neu fwy gytuno i gyfuno os ydynt yn credu y byddai'n eu cynorthwyo i gyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant.

2) Caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo dau fwrdd gwasanaethau cyhoeddus neu fwy i gyfuno os ydynt o'r farn y byddai'n cynorthwyo'r byrddau i gyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant.

3) Ond, caiff byrddau gyfuno dim ond—

   a) os yw'r un Bwrdd Iechyd Lleol yn aelod o bob bwrdd sy'n ceisio cyfuno neu sy'n cael eu cyfarwyddo i gyfuno, ac

   b) os nad oes unrhyw Fwrdd Iechyd Lleol arall yn aelod o unrhyw un o'r byrddau hyn.

### Adran 48 - Cydweithredu rhwng byrddau gwasanaethau cyhoeddus

1) Caiff dau fwrdd gwasanaethau cyhoeddus neu fwy gytuno i gydweithredu os ydynt o'r farn y byddai'n eu cynorthwyo i gyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant.

2) Caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo dau fwrdd gwasanaethau cyhoeddus neu fwy i gydweithredu ym mha ffordd bynnag ag y credant y byddai'n cynorthwyo'r byrddau i gyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant.

3) At ddibenion yr adran hon, bydd bwrdd yn cydweithredu—

   a) os yw'n cydweithio â bwrdd arall,

b) os yw'n hwyluso gweithgareddau bwrdd arall,

c) os yw'n cydlynu ei weithgareddau â bwrdd arall,

ch) os yw'n arfer swyddogaethau bwrdd arall ar ei ran, neu

d) os yw'n darparu staff, nwyddau, gwasanaethau neu lety i fwrdd arall

## Cyngor

Mae'r ddwy Ddeddf yn mynnu bod prosesau asesu'n cael eu cynnal a fydd yn arwain at allbynnau gwahanol. Yn achos yr asesiad poblogaeth, yr allbynnau yw'r adroddiad asesiad poblogaeth ac yna'r cynlluniau manwl a lunnir o dan Adran 14A Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Yn achos yr asesiad o lesiant lleol, yr allbwn yw'r Cynllun Llesiant Lleol ar gyfer ardal y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae angen i un (yr asesiad poblogaeth) ganolbwyntio ar anghenion pobl am ofal a chymorth ac ystod a lefel gwasanaethau; mae ganddo elfennau gweithredol yn ogystal â strategol. Bydd yr Asesiad o Lesiant Lleol ar lefel uwch ac yn canolbwyntio ar lesiant ehangach (economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol) y boblogaeth gyfan.

Mae'r amserlenni ar gyfer y ddwy set o ofynion yn dangos yr allbynnau gwahanol:

| | ADRODDIAD A CHYNLLUN ASESIAD POBLOGAETH | ASESIAD O LESIANT LLEOL A CHYNLLUN LLESIANT LLEOL |
|---|---|---|
| Dyddiad cwblhau'r asesiad | 31.3.17 | Ddim hwyrach na blwyddyn cyn cyhoeddi'r cynllun (e.e. 31.4.17) |
| Dyddiad cyhoeddi'r adroddiad | 31.3.17 | Gweler uchod, bydd angen i'r asesiad gael ei gyhoeddi ar yr adeg hon |
| Cyfnod paratoi'r cynllun | Bydd yr adroddiad yn cynnwys prif fwriadau ond bydd cynlluniau manwl yn cael eu paratoi rhwng 31.3.17 a 31.3.18 | Rhwng 4.5.17 a 4.5.18 |
| Cyhoeddi'r cynllun | 31.3.18 (yn amodol ar gyngor pellach ar s14A) | Ddim hwyrach na 4.5.18 |

***D.S. Mewn gwirionedd, bydd angen i chi gwblhau'r prosesau cyn y dyddiadau hyn er mwyn caniatáu ar gyfer cyfnodau ymgynghori priodol (ar gyfer cynlluniau asesiad poblogaeth ac asesiad Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol) a llywodraethu.***

Cewch gynnwys y cynllun manwl sy'n dilyn cyhoeddi eich adroddiad asesiad poblogaeth yn eich Cynllun Llesiant Lleol, os yw pob aelod o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cytuno. **CYNLLUNIAU AR GYFER Y DYFODOL**

P'un a ydych yn bwriadu cynnwys eich cynllun manwl yn eich Cynllun Llesiant Lleol ai peidio, bydd angen i chi fod yn eglur ynglŷn â'r ymagwedd rydych chi'n bwriadu ei defnyddio, nid lleiaf oherwydd bod y Cynlluniau Llesiant Lleol wedi'u seilio ar bob ardal awdurdod lleol a bod y bwriadau sy'n deillio o'ch asesiad poblogaeth yn ymdrin ag ardal bwrdd iechyd. Mae hyn yn awgrymu 22 Asesiad o Lesiant Lleol ac, yn wahanol i'r asesiad poblogaeth, nid oes angen asesiad cyfunol (er y byddai'r grym i gydweithredu'n galluogi paratoi asesiad cyfunol).

Mae'n dilyn y dylech sicrhau strwythur llywodraethu sy'n golygu y gellir gwneud cysylltiadau rhwng y Cydbwyllgor sy'n goruchwylio eich asesiad poblogaeth, y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n goruchwylio'r Asesiad o Lesiant Lleol a'r Cynllun Llesiant Lleol.

**ADRAN BARTNERIAETH**

Ni all eich Cydbwyllgor gael ei sefydlu fel is-bwyllgor unrhyw Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) oherwydd bod yr ardaloedd a gwmpasir gan y ddau allbwn yn wahanol. Ardal yr awdurdod lleol yw ardal y BGC, ond mae'r Cydbwyllgor yn cwmpasu ardal y Bwrdd Iechyd Lleol.

Mae'r synergedd rhwng yr asesiad poblogaeth a'r Asesiad o Lesiant Lleol yn amlwg. Yn ogystal ag ystyried yr asesiad poblogaeth mwyaf diweddar a gynhaliwyd gennych, mae'r olaf yn mynnu eich bod yn ystyried nifer o bynciau penodol a allai ymddangos yn eich asesiad poblogaeth hefyd, sef:

- yr adolygiad mwyaf diweddar o ddigonolrwydd y ddarpariaeth addysg feithrin ar gyfer ardal yr awdurdod lleol a gynhaliwyd o dan adran 119(5)(a) Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (c.31);
- yr asesiad mwyaf diweddar o ddigonolrwydd y ddarpariaeth gofal plant yn ardal yr awdurdod lleol a gynhaliwyd yn unol â rheoliadau a waned o dan adran 26(1) Deddf Gofal Plant 2006 (c.21);
- yr asesiad mwyaf diweddar o ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae yn ardal yr awdurodd lleol a gynhaliwyd o dan adran 11(1) Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 (nawm 1);
- yr asesiad strategol mwyaf diweddar a baratowyd yn unol â rheoliadau o dan adran 6 Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 (c.37) yn ymwneud â lleihau trosedd ac anhrefn;
- yr asesiad strategol mwyaf diweddar a baratowyd yn unol â rheoliadau o dan yr adran honno sy'n ymwneud â mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau;
- yr asesiad strategol mwyaf diweddar a baratowyd yn unol â rheoliadau o dan yr adran honno sy'n ymwneud â lleihau aildroseddu.

Mae goblygiadau llwyth gwaith yn gysylltiedig â pharatoi a chyhoeddi dau asesiad, y gellir goresgyn rhai ohonynt trwy gyfuno ymdrechion i gasglu data ac ymgysylltu â phobl. Oherwydd bod rhaid i anghenion llesiant pobl y mae arnynt angen gofal a chymorth gael eu cynnwys yn yr asesiad llesiant sut bynnag, gellid dadlau nad oes angen cynnal ymarferion casglu data ar wahân. Fodd bynnag, ni waeth sut y trefnwch y ddau asesiad, ni ddylech anghofio eu dibenion a'u canolbwynt gwahanol. Mae'r asesiad poblogaeth yn debygol o fynnu manylion gweithredol a gwybodaeth reoli ar lefel na fyddai ei hangen ar gyfer yr asesiad strategol o lesiant lleol. Bydd yr asesiad o lesiant lleol yn ystyried ystod fwy helaeth o dystiolaeth arall yn ymdrin â llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ehangach yr ardal hefyd.

Mae'n hollbwysig cofio mai dau beth ar wahân a chanddynt ddibenion gwahanol yw'r adroddiad asesiad poblogaeth a'r asesiad o lesiant lleol, ac y bydd angen iddynt gadw eu hunaniaeth a'u cyfanrwydd unigol. Ni ddylai unrhyw ymdrech i integreiddio eu prosesau cynhyrchu fod ar draul y gwerth sy'n rhan annatod o ganolbwyntio'n benodol ar y gwahanol bynciau.

Nid oes ffordd orau o sicrhau eich bod yn bodloni'r ddwy set o ofynion. Chi sydd i benderfynu pa ymagwedd i'w dilyn ac mae tystiolaeth hyd yma'n awgrymu bod rhai ardaloedd yn bwriadu integreiddio'r ddwy dasg tra bod eraill yn eu cadw ar wahân. Yr hyn a ddysgwyd o'r ymarfer peilot yw bod rhai buddion yn gysylltiedig ag uno'r ymarfer o ran sicrhau ymagwedd gydgysylltiedig ac osgoi dyblygu ymdrechion, ond ceir heriau i'w goresgyn hefyd o ran cynnal pwyslais eglur ar y fenter sy'n derbyn sylw ar adeg benodol.

Dylech ystyried unrhyw gynigion i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gydweithredu neu gyfuno, oherwydd fe allai hynny arwain at oblygiadau i reoli a llywodraethu eich asesiad poblogaeth.

# ATAL A GWASANAETHAU ATALIOL

Mae'n rhaid i'ch asesiad o ystod a lefel gwasanaethau gynnwys pwyslais ar sut y gall gwasanaethau a chymorth atal anghenion rhag digwydd a gwaethygu. Mae'r Cod Ymarfer yn atgyfnerthu statws atal fel un o gonglfeini'r Ddeddf.

## Diffinio gwasanaethau atal ac ataliol

Nid yw'r Cod Ymarfer yn rhoi diffiniad ac ychydig o ddiffiniadau dibynadwy a geir mewn llenyddiaeth academaidd. Fodd bynnag, gallwch ddefnyddio dulliau eraill o amlygu'r hyn sy'n cynrychioli gwasanaeth ataliol a dylech gydnabod eich bod eisoes yn darparu gwasanaethau o'r natur hon.

Mae'r Cod Ymarfer yn cadarnhau mai gwasanaethau ataliol yw gwasanaethau a fydd yn cyflawni'r dibenion canlynol:

a) Cyfrannu tuag at atal neu arafu datblygiad anghenion pobl am ofal a chymorth;

b) Lleihau anghenion gofal a chymorth pobl sydd ag anghenion o'r fath;

c) Ceisio sicrhau bod plant yn cael eu magu gan eu teuluoedd, lle mae hynny'n gyson â llesiant plant;

ch) Lleihau'r effaith y mae anableddau pobl yn ei chael arnynt gymaint â phosibl;

d) Cyfrannu tuag at atal pobl rhag dioddef camdriniaeth neu esgeulustod;

dd) Lleihau'r angen am:

- achosion ar gyfer gorchmynion gofal neu oruchwylio o dan Ddeddf Plant 1989,
- achosion troseddol yn erbyn plant,
- unrhyw achosion teuluol neu achosion eraill mewn perthynas â phlant a allai olygu eu bod yn cael eu derbyn i ofal awdurdod lleol, neu
- achosion o dan awdurdodaeth gynhenid yr Uchel Lys mewn perthynas â phlant;

e) Annog plant i beidio â chyflawni troseddau;

f) Osgoi'r angen i blant gael eu rhoi mewn llety diogel; a

ff) Galluogi pobl i fyw eu bywydau mor annibynnol â phosibl.

## Dyma fuddion eraill yr ymagwedd ataliol:

- Mae atal ac ymyrraeth gynnar yn gwneud gwasanaethau cymdeithasol yn fwy cynaliadwy.
- Gall gwasanaethau gofal a chymorth atal pobl rhag cyrraedd sefyllfa argyfwng.
- Gall gwasanaethau ataliol helpu pobl i ddysgu, cynnal neu wella sgiliau a gallu gweithredol (cymhwyso) ac maen nhw'n rhan annatod o hybu llesiant.
- Gallai pobl mewn rhai amgylchiadau penodol elwa ar gymorth ataliol, gan gynnwys:
  - Teuluoedd y mae arnynt angen cymorth i fynd i'r afael â heriau, y gallai eu heffaith uniongyrchol neu gronnol arwain at achosion gofal;
  - Derbyn/rhyddhau o'r ysbyty;

- Cysylltu â gofal a chymorth preifat neu ei ddefnyddio;
- Plant sy'n derbyn gofal, plant mewn angen a phlant sydd mewn sefyllfa bontio;
- Pobl sydd wedi cael profedigaeth yn ddiweddar;
- Ymgeisio am fudd-daliadau fel Lwfans Gweini neu Lwfans Gofalwyr;
- Pobl sydd wedi mynd yn anabl yn ddiweddar.

### Amlygu ystod a lefel y gwasanaethau sy'n ofynnol

Bydd angen i chi sefydlu ac asesu beth sy'n cael ei ddarparu/beth sydd ar gael ar hyn o bryd, gan ystyried lefelau capasiti ac ansawdd gwasanaethau. Bydd y rhain yn cynnwys:

- gwasanaethau cyffredinol
- gwasanaethau wedi'u targedu; a
- gwasanaethau sy'n ceisio lleihau effaith angen presennol gymaint â phosibl.

Mae'n rhaid i bobl ymwneud yn llawn ag amlygu pa fesurau ataliol a allai eu cynorthwyo ac wrth gynllunio ar gyfer eu darparu.

### YMGYSYLLTU

Pan nad yw unigolyn yn gallu mynegi ei safbwyntiau, ei ddymuniadau na'i deimladau, rhaid i chi sicrhau ei fod yn cael ei gynorthwyo i wneud hynny. Ceir dolen yma i'r Cod Ymarfer ar Eiriolaeth, sy'n amlinellu hawliau pobl i gael cymorth eiriolaeth

http://gov.wales/docs/dhss/publications/151218part10en.pdf

Mae'n ddefnyddiol meddwl am wasanaethau ataliol ar ffurf model 3 lefel. Yn amlwg, fodd bynnag, nid yw'r fframwaith tair haen hwn yn creu continwwm clir o wasanaethau, o lefel isel i ddarpariaeth ddwysach, yn bennaf oherwydd nad oes diffiniad cytunedig ar gael o wasanaeth ataliol. Diben yr enghreifftiau a geir yma yw eich cynorthwyo â thasg anodd yn unig ac nid ydynt yn rhagnodol. Bydd angen i chi ffurfio eich dealltwriaeth eich hun o wasanaethau atal ac ataliol a pha wasanaethau sy'n gost-effeithiol.

### Lefel 1 - Atal sylfaenol:

Mae hyn yn debygol o gael ei dargedu at unigolion sy'n gymharol iach ac egnïol fel na fydd angen i bobl ystyried defnyddio gofal a chymorth. **Mae enghreifftiau'n cynnwys**

- Rhaglenni a gweithgareddau a gynlluniwyd i gadw pobl yn iach, fel rhaglenni ymarfer corff, rhoi'r gorau i ysmygu, imiwneiddio, cynlluniau dosbarthu bwyd a mentrau eraill yn ymwneud â byw'n iach.
- Gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth sy'n galluogi pobl i gael eu cyfeirio at amryw fathau o gymorth a chyngor sy'n atal eu hanghenion rhag gwaethygu.
- Rhaglenni i ddatblygu sgiliau bywyd.
- Rhaglenni newid ffordd o fyw.
- Eiriolaeth
- Cynlluniau cyfeillio a chymdogaeth.

- Rhaglenni ac ymagweddau sy’n mynd i’r afael ag ymddygiadau rhieni a allai, o’u gadael heb eu hatal, olygu bod plant yn gorfod cael eu derbyn i ofal.

**Lefel 2 - Atal eilaidd:**

Ar y lefel hon, mae’r angen am ryw fath o ofal a chymorth yn debygol o fod wedi cael ei nodi, naill ai oherwydd bod gan unigolyn anghenion amlwg neu oherwydd y nodwyd ei fod mewn perygl o gyflyrau neu ddigwyddiadau penodol fel cwympo neu strôc. **Mae enghreifftiau’n cynnwys**

- Gwasanaethau ailalluogi.
- Gofal seibiant
- Teleofal neu delefeddygaeth.
- Cymhorthion ac addasiadau.
- Rhai pecynnau gofal cartref penodol.
- Gofal seibiant a gofal dydd.
- Gofal sylfaenol.
- Therapïau.
- Rhaglenni atal cwympo.
- Rhaglenni atal strôc.
- Sgrinio a chanfod achosion.
- Asesiadau cychwynnol.

**Lefel 3 - Atal trydyddol:**

Ar y lefel hon, diben atal yw lleihau cymaint â phosibl ar anabledd neu ddirywiad o ganlyniad i glefydau sefydledig ac, felly, mae wedi’i dargedu at bobl gymharol sâl a bregus. Prif swyddogaeth atal ar y lefel hon yw oedi dirywiad anochel, ond nid ei atal o bosibl. **Mae enghreifftiau’n cynnwys**

- Pecynnau gofal cartref angen uwch.
- Gofal canolraddol.
- Gofal tymor byr.
- Cymorth integredig i deuluoedd

Nid yw’r ymagwedd hon yn berffaith, wrth gwrs, a bydd barn pobl yn amrywio o ran pa gategorïau sy’n berthnasol i wahanol wasanaethau. Mae’r enghraifft isod yn dangos hyn trwy ddarparu haeniad arall. Y peth pwysig yw peidio â phoeni gormod am yr anghysondebau o ran dosbarthu, ond manteisio ar y fframwaith hwn i’ch helpu i amlygu gwasanaethau ataliol.

| | |
|---|---|
| Atal sylfaenol | Gwasanaethau sy’n golygu nad oes angen i bobl ddod i’r drws blaen e.e. llyfrgell, gwasanaethau hamdden, gwasanaeth galw heibio i bobl ifanc, mynediad at wybodaeth, clybiau cymunedol lleol, hybu iechyd, gwasanaethau tai. |
| Atal eilaidd | Camau i ganfod problemau posibl e.e. profion clyw a golwg, archwiliadau deintyddol, hawliau lles, gofal sylfaenol, gofal sylfaenol iechyd meddwl, atal cwympo, presenoldeb ysgol. |
| Atal trydyddol | Camau i leihau effaith problem sydd eisoes yn bodoli e.e. TAF, IFST, FAST, ailalluogi, offer ac addasu, teleofal, gwasanaeth rhyddhau o’r ysbyty, prosiect gofalwyr, gwasanaeth troseddau ieuenctid, cefnogi pobl. |

### Egwyddorion i arwain eich ymagwedd at atal a gwasanaethau ataliol

- Yn aml, mae gwasanaethau ataliol yn well o gael eu creu a'u rheoli ar y cyd.
- Gall yr awdurdod lleol a'r gwasanaeth iechyd i gyd, gan gynnwys meddygon teulu, gyfrannu at greu gwasanaethau ataliol.
- Mae'r trydydd sector yn cyflawni ystod o swyddogaethau sy'n bwysig i gyflawni atal, ac mae'n rhaid ei gynnwys yn briodol.
- Gall ymgysylltu â darparwyr helpu i amlygu lle y gall gwasanaethau ataliol gynorthwyo.
- Mae'n bwysig cydnabod yr angen i ddarparu neu drefnu gwasanaethau ataliol mewn ffordd wahanol i oresgyn rhwystrau mewn cymunedau gwledig.
- Mae gan ofalwyr rôl allweddol yn yr ymagwedd ataliol. Mae gofalwyr eu hunain yn darparu math o wasanaeth ataliol.
- Mae angen gwybodaeth a chymorth er mwyn i bobl adnabod yr hyn sy'n bwysig iddynt a'r ffordd orau iddynt gyflawni eu canlyniadau.
- Ni ddylai pobl gael eu heithrio o unrhyw wasanaethau ataliol oherwydd na fyddant yn 'gwella yn llwyr neu oherwydd nad oes modd atal eu cyflwr. Ni ddylai fod o wahaniaeth p'un a allai fod angen cymorth ar rywun eto yn y dyfodol os bydd ei gyflwr yn newid neu os yw'n debygol o waethygu ymhellach.
- Ystyried atal yn rhan o 'gontinwwm cymorth' sy'n cysylltu elfennau a ddarperir gan y trydydd sector a phartneriaid eraill â'r rheiny a ddarperir neu a gomisiynir gan awdurdodau lleol.

### Darparu gwasanaethau ataliol

Yn ôl y Cod Ymarfer:

- Dylai hygyrchedd fod yn egwyddor allweddol wrth gynllunio gwasanaethau ataliol. Dylid rhoi sylw arbennig i sicrhau bod anghenion y rhai hynny ag anableddau'n cael eu hystyried yn briodol wrth gynllunio gwasanaethau ataliol mewn ardal.
- Mae'n rhaid i wasanaethau ataliol gael eu darparu neu eu trefnu mewn modd priodol ac amserol.
- Ni ddylai pobl gael eu heithrio o unrhyw wasanaethau ataliol oherwydd bod ganddynt angen gofal a chymorth y mae'n bosibl na fyddant yn 'gwella' ohono.
- Yn unol â Rhan 3 y Ddeddf (Asesu Anghenion), dylech sefydlu trefniadau i amlygu a thargedu unigolion penodol ar gyfer gwasanaethau ataliol.
- Dylech bob amser geisio darparu gwasanaethau ataliol i unigolion ar bob cam o'u llwybr.
- Dylai pobl ymwneud yn llawn â dod o hyd i'w datrysiadau eu hunain.
- Dylai pobl gael gafael ar wybodaeth am wasanaethau ataliol trwy'r gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth.
- Dylech sicrhau bod cymorth yn cael ei roi i bobl, gan gynnwys plant, y mae arnynt angen cymorth priodol i'w galluogi i ymwneud yn ystyrlon â gwasanaethau ataliol.
- Mae'n rhaid i chi, mewn rhai amgylchiadau, sicrhau bod yr unigolyn yn cael ei gynorthwyo gan eiriolwr annibynnol heb unrhyw gost i'r unigolyn.

- Ni chewch godi tâl am chwe wythnos gyntaf gwasanaethau ailalluogi a ddarperir i gynorthwyo unigolyn i gynnal neu adfer ei allu i fyw'n annibynnol.
- Rhaid i chi beidio â chodi tâl am wasanaethau ataliol i blant.

### Cyngor

Gallwch ddefnyddio'r wybodaeth uchod i greu model a rhestr wirio ar gyfer amlygu gwasanaethau ataliol. Bydd hyn yn cynnwys ateb y cwestiynau allweddol canlynol:

- A yw'r gwasanaeth yn bodloni unrhyw un o'r dibenion a ddiffiniwyd yn y Cod Ymarfer?
- A yw'r gwasanaeth yn cyflawni unrhyw un o'r buddion ychwanegol?
- A yw eich gweithgarwch ymgysylltu wedi cadarnhau pa wasanaethau sy'n bwysig i bobl?
- A ydych chi wedi mabwysiadu ymagwedd gydweithrediadol, gan gynnwys y trydydd sector a darparwyr?
- A ydych chi wedi rhoi pwyslais priodol ar sefyllfa gofalwyr?
- A yw'r gwasanaeth yn helpu pobl i gyflawni eu canlyniadau personol yn unol â'r Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol?

I gael enghreifftiau o arfer da ac ymchwil sy'n dod i'r amlwg, gallwch chwilio llyfrgell atal y Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth (SCIE) yn

http://www.scie.org.uk/prevention-library/

# MENTRAU CYMDEITHASOL, SEFYDLIADAU A THREFNIADAU CYDWEITHREDOL, GWASANAETHAU A ARWEINIR GAN DDEFNYDDWYR A'R TRYDYDD SECTOR

Mae Adran 16 y Ddeddf a'r Cod Ymarfer sy'n ei hategu yn pwysleisio y bydd amlygu asedau ar lefel unigol, gymunedol a phoblogaeth yn hollbwysig i ddeall cyfraniadau presennol a phosibl pobl, cymunedau a sefydliadau. Gall datblygu a galluogi adnoddau cymunedol gyfrannu at ymagwedd ataliol. Gall sefydliadau nid er elw preifat, fel mentrau cymdeithasol, cwmnïau cydweithredol, gwasanaethau a arweinir gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector, fod yn adnodd gwerthfawr yn hyn o beth.

Gall datblygu a hyrwyddo sefydliadau nid er elw preifat gyflawni nodau amgylcheddol a chymdeithasol eraill hefyd, gan felly fod o fudd i'r gymuned mewn sawl ffordd. Bydd yr ymagwedd hon yn cefnogi arloesedd a chreadigrwydd, yn cynyddu cydnerthedd cymunedau ac yn lleihau perygl dibyniaeth ar un math o wasanaeth.

Gall gwasanaethau ataliol gael eu datblygu a'u darparu'n uniongyrchol a/neu mewn partneriaeth â phartneriaid lleol eraill, gan gynnwys y trydydd sector.

Yn aml, mae mentrau cymdeithasol, sefydliadau cydweithredol, trefniadau cydweithredol, gwasanaethau a arweinir gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector yn cynnal gweithgareddau yr ystyrir eu bod yn ychwanegu gwerth at gymdeithas; er enghraifft, trwy gyflogi pobl leol wrth ddarparu'r gwasanaeth. Dylent hefyd weithredu fel gwasanaethau ataliol.

Mae'n rhaid i chi:

- Ddefnyddio eich asesiad poblogaeth i'ch helpu i fodloni'r gofyniad yn adran 16 y Ddeddf a'r Cod Ymarfer sy'n ei hategu.
- Gweithio mewn **PARTNERIAETHAU** i hyrwyddo datblygiad sefydliadau nid er elw preifat i ddarparu gofal a chymorth a chymorth i ofalwyr, a gwasanaethau ataliol. Mae'r modelau hyn yn cynnwys mentrau cymdeithasol, sefydliadau cydweithredol, trefniadau cydweithredol, gwasanaethau a arweinir gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector.
- Ychwanegu at y ddyletswydd hon trwy alluogi pobl i gynllunio a gweithredu eu gwasanaethau eu hunain i fodloni eu hanghenion gofal a chymorth ar lefel unigol, sefydliadol a strategol.
- Cynnwys pobl wrth ystyried ystod a lefel y gwasanaethau sy'n ofynnol i fodloni eu hanghenion a chydgynhyrchu dylunio a gweithredu gwasanaethau. Mae hyn yn cynnwys ystyried sut y gellir bodloni'r anghenion hyn trwy hyrwyddo ac annog datblygiad mentrau cymdeithasol, sefydliadau neu drefniadau cydweithredol, gwasanaethau a arweinir gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector.
- Sicrhau eich bod yn ystyried cyfleoedd newydd a gyflwynir gan Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015.

### Beth yw menter gymdeithasol?

Mae Busnes Cymru yn disgrifio menter gymdeithasol fel busnes ag amcanion cymdeithasol yn bennaf. Mae'r elw'n cael ei ailfuddsoddi yn y busnes neu'r gymuned gan mwyaf, yn hytrach na chynyddu cyfoeth rhanddeiliaid a pherchenogion. Mae mentrau cymdeithasol yn cystadlu yn y farchnad hefyd, ac mae angen iddynt gael eu cynnal yn dda i wneud arian a chyflawni eu nodau cymdeithasol. Gallant amrywio o siopau pentref bach a berchenogir gan y gymuned i sefydliadau mawr sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus.

### Beth yw'r Trydydd Sector?

Mae Cynllun Trydydd Sector Llywodraeth Cymru yn rhoi diffiniad o'r Trydydd Sector. Mae'n dweud y derbynnir yn gyffredinol bod sefydliadau'r Trydydd Sector:

- Yn gyrff anllywodraethol, annibynnol
- Yn cael eu sefydlu'n wirfoddol gan bobl sy'n dewis trefnu eu hunain
- Yn cael eu hysgogi gan werthoedd ac amcanion cymdeithasol, diwylliannol neu amgylcheddol yn hytrach nag i wneud elw yn syml
- Yn ymrwymedig i ailfuddsoddi eu gwargedion er mwyn datblygu eu nodau cymdeithasol ac er budd pobl a chymunedau yng Nghymru.

### Cyngor

- Dylech ystyried rolau sy'n hyrwyddo twf y modelau hyn ac ystyried rolau swyddog sydd â chyfrifoldeb penodol am ddatblygu mentrau cymdeithasol, sefydliadau cydweithredol, trefniadau cydweithredol, gwasanaethau a arweinir gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector.
- Dylech greu amgylchedd lleol sy'n hyrwyddo llais a rheolaeth defnyddwyr ar bob lefel a cheisio cynyddu ymwybyddiaeth ehangach o rôl y modelau hyn wrth gynorthwyo pobl i gael gofal a chymorth o ansawdd da, a buddion ac ystod y cymorth sydd ar gael. Dylech hwyluso rhannu arfer da yn y maes hwn a chynorthwyo staff i ddeall sut y gallant weithio gyda mentrau cymdeithasol, sefydliadau a threfniadau cydweithredol, gwasanaethau a arweinir gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector.
- Wrth ymgysylltu â phobl, dylech ganolbwyntio ar ganlyniadau yn hytrach na phrosesau ac allbynnau. **YMGYSYLLTU**. Rhaid i chi weithio gyda phobl i amlygu a monitro'r cynnydd maen nhw"n ei wneud tuag at gyflawni a chynnal canlyniadau personol ac:
- Ystyried y canlyniadau personol a amlinellir yn y datganiad llesiant
- Ystyried effeithiolrwydd mentrau cymdeithasol, sefydliadau a threfniadau cydweithredol, sefydliadau a arweinir gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector wrth gynorthwyo pobl i gyflawni llesiant, bodloni eu hamcanion a, lle y bo'n bosibl, darparu gwerth ychwanegol. **FFRAMWAITH CANLYNIADAU**

### Adnoddau

Mae mwy o wybodaeth ac arweiniad am fentrau cymdeithasol ar gael gan y canlynol:

- Canolfan Cydweithredol Cymru

http://www.walescooperative.org/

- Busnes Cymdeithasol Cymru

http://business.wales.gov.uk/socialbusinesswales/

- Cwmnïau Cymdeithasol Cymru

http://www.socialfirmswales.co.uk/

- Mentrau Cymdeithasol y DU

http://www.socialenterprise.org.uk/about/about-social-enterprise

Mae mwy o wybodaeth ac arweiniad am sefydliadau cydweithredol ar gael gan y canlynol:

- Y Gynghrair Gydweithredol Ryngwladol

http://ica.coop/

- Canolfan Cydweithredol Cymru

http://www.walescooperative.org/Third Sector

Mae mwy o wybodaeth ac arweiniad am sefydliadau'r trydydd sector ar gael gan y canlynol:

- Cynllun Trydydd Sector Llywodraeth Cymru

http://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/voluntarysector/?lang/en

- Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC)

http://www.wcva.org.uk/

Mae mwy o arweiniad, cymorth a ffynonellau gwybodaeth ar gael ar Hyb Gwybodaeth a Dysgu Cyngor Gofal Cymru.

www.ccwales.org.uk/edrms/156809

Mae'r adroddiad Cyflawni'r Ddyletswydd, http://bit.ly/1UECCFb yn rhoi arweiniad ar sut y gellir creu cyfleoedd i bobl sefydlu a chynnal eu gwasanaethau gofal a chymorth eu hunain.

Mae'r Rheoliadau Contractau Cyhoeddus (gweler http://bit.ly/1Kzwk3b) yn cynnwys cyfleoedd i feithrin datblygiad sefydliadau sy'n cyflawni nifer o amcanion, fel; ailfuddsoddi elw gyda'r nod o gyflawni amcanion y sefydliad, a bod unrhyw elw'n cael ei ailddosbarthu yn seiliedig ar ystyriaethau cyfranogol; bod strwythurau rheolaeth neu berchenogaeth y sefydliad wedi'u seilio ar egwyddorion perchenogaeth gan weithwyr neu gyfranogol, neu y byddant wedi'u seilio arnynt, ac yn mynnu cyfranogiad gweithredol gan weithwyr, defnyddwyr neu randdeiliaid.

Maen nhw hefyd yn cefnogi gweddnewid y ffordd y darperir gwasanaethau. Er enghraifft, mae Rheoliad 40 yn amlinellu sut y caiff awdurdodau contractio geisio neu dderbyn cyngor gan arbenigwyr neu awdurdodau annibynnol neu gyfranogwyr yn y farchnad wrth baratoi'r caffael. Mae'r ymagwedd hon wedi'i chynnwys yn Natganiad Polisi Caffael Cymru a Chanllaw Cynllunio Caffael Cymru, ac yn cydnabod y buddion a'r ymagweddau arloesol y gellir eu cyflawni trwy ymgysylltu â chyflenwyr yn gynnar a cheisio adborth gan y farchnad. Mae Rheoliadau 20 a 77 yn rhoi cyfle i ddefnyddio caffael mewn ffordd sy'n cryfhau ac yn helpu i greu mentrau sy'n canolbwyntio ar y gymuned.

**RHESTR WIRIO YSTYRIAETHAU STRATEGOL**

A ydych chi wedi

- ☐ Cwblhau Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb
- ☐ Cynnal proffil iaith Gymraeg
- ☐ Ystyried y cysylltiadau â'r Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol
- ☐ Croesgyfeirio deddfwriaeth a strategaethau eraill
- ☐ Ystyried cysylltiadau â Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
- ☐ Sefydlu ymagwedd at ddeall gwasanaethau ataliol
- ☐ Ystyried y potensial ar gyfer mentrau cymdeithasol, gwasanaethau a arweinir gan ddefnyddwyr a chwmnïau cydweithredol?

# ADRODDIADAU

## Beth y mae angen ei gynnwys yn yr adroddiad?

Mae'r Cod Ymarfer yn mynnu eich bod chi'n plethu'r adroddiad yn ddwy adran. Mae'n rhaid i bob adroddiad gynnwys asesiad cyfunol (ôl troed y Bwrdd Iechyd Lleol) ac ardal (pob awdurdod lleol yn ardal y Bwrdd Iechyd Lleol).

Rhoddir rhagor o wybodaeth yn adran 'BETH' y pecyn cymorth.

## Yn Adran 1, mae'n rhaid i'ch adroddiad

- Gynnwys manylion sut rydych wedi ymgysylltu â phobl ar y cyd wrth ei gynhyrchu a sut rydych wedi ymgysylltu â darparwyr gwasanaeth.
- Cael ei strwythuro o amgylch themâu craidd cyffredinol y mae'n rhaid iddynt gynnwys:
  - plant a phobl ifanc;
  - pobl hŷn;
  - iechyd / anableddau corfforol;
  - anabledd dysgu/awtistiaeth;
  - iechyd meddwl;
  - nam ar y synhwyrau;
  - gofalwyr y mae arnynt angen cymorth; a
  - thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.
- Cynnwys dadansoddiad gofodol o dystiolaeth o dan bob thema er mwyn datblygu dealltwriaeth o ble ac i ba raddau y mae'r themâu craidd wedi'u crynhoi neu wedi'u gwasgaru ar draws ardal yr asesiad.
- Cyflwyno'r gwahaniaethau o ran y themâu craidd ar draws pob awdurdod lleol ac ardal glwstwr y GIG yn ardal yr asesiad.
- Cynnwys dadansoddiad o'r dystiolaeth o ran grwpiau oedran lle y bo'n briodol.
- Nodi i ba raddau nad yw anghenion yn cael eu bodloni.
- Bod wedi ystyried anghenion gofal a chymorth poblogaethau mewn sefydliadau diogel er mwyn bodloni gofynion adran 11 y Ddeddf.
- Cadarnhau porffil y gymuned Gymraeg ei hiaith.

### Yn Adran 2, mae'n rhaid i'ch adroddiad

- Gyflwyno'r asesiad o ystod a lefel y gwasanaethau y mae eu hangen yn unol â'r un themâu craidd a ddefnyddiwyd yn Adran 1.
- Cynnwys asesiad o'r graddau y gallai'r anghenion a amlygwyd mewn perthynas â'r themâu craidd gael eu bodloni trwy ddarparu gwasanaethau mewn partneriaeth â'r Bwrdd Iechyd Lleol ar gyfer eich ardal ac awdurdodau lleol eraill yn ardal y Bwrdd Iechyd Lleol hwnnw.
- Myfyrio ar sut rydych chi'n ychwanegu at eich dyletswydd i hyrwyddo mentrau cymdeithasol, cwmnïau cydweithredol, gwasanaethau a arweinir gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector.
- Amlygu'r asedau sy'n gallu helpu i greu gwasanaethau ar lefel unigol, gymunedol a phoblogaeth.
- Amlinellu'r asesiad o wasanaethau ataliol, gan gynnwys gwasanaethau eiriolaeth.
- Amlinellu sut y gellir darparu ymagwedd ataliol mewn partneriaeth â'r Bwrdd Iechyd Lleol ar gyfer eich ardal chi o'r awdurdod lleol ac awdurdodau lleol eraill o fewn ardal eich Bwrdd Iechyd Lleol.
- Amlygu'r camau i ddarparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.

### Cyhoeddi Adroddiadau

Bydd angen i chi gyhoeddi un adroddiad ar gyfer pob ardal asesiad poblogaeth. Bydd cyfanswm o saith adroddiad asesiad poblogaeth ar gyfer Cymru yn unol â'r trefniadau partneriaeth rhanbarthol.

**PARTNERIAETHAU**

Mae'r adran hon yn amlinellu'r trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r adroddiad terfynol.

Bydd angen i'r adroddiad gael ei gyhoeddi ar wefan:

- Pob awdurdod lleol
- Pob Bwrdd Iechyd Lleol

Ar adeg ei gyhoeddi, mae'n rhaid i'r adroddiad gael ei anfon at Weinidogion Cymru hefyd. Y corff cydlynu arweiniol ar gyfer yr adroddiad sy'n gyfrifol am ei anfon at Weinidogion Cymru.

Dylech sicrhau nad yw'r adroddiadau cyhoeddedig yn cynnwys unrhyw wybodaeth y gellir adnabod unigolion wrthi, yn unol â phrotocolau WASPI.

Nid oes templed penodol ar gyfer eich adroddiad cyhoeddedig, dim ond gofynion ar gyfer yr hyn y mae angen ei gynnwys. Bydd angen i chi benderfynu ar ei ddiwyg, ei arddull gyffredinol a'i hyd os ydych eisiau darparu copïau caled.

